# Y CARDI BACH


Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 469 | Mawrth 2026 | Pris £1.50


## Teyrnged John Arfon

Taenwyd ton o dristwch dros ardal eang pan dorrodd y newyddion trist am farwolaeth sydyn John Arfon Jones yng Nghartref Waungron, Hendy Gwyn ar Daf ar Chwefror 19eg ac yntau'n 87 oed. Brodor o Lanycafn, Llanrwst oedd John, ond symudodd lawr i Hendy Gwyn yn 1962 ar ol derbyn swydd athro mathemateg yn yr Ysgol Ramadeg. Bu'n dysgu cenedlaethau o ddisgyblion y fro yn ystod ei yrfa ac adwaenid ef gan bawb fel "square root"! Cofiwn amdano'n sefydlu'r grwp Perlau Taf yn ystod ei ddyddiau cynnar fel athro a hynny yng nghwmni 5 o ddisgyblion o Login, sef Tecwyn, Euros, Beti, Carol,a Mari. John fu'n chwarae'r allweddellau ac yn cyfansoddi nifer o'r caneuon ar y cyd gyda'i wraig annwyl Ruby.
Fel nodwyd yn rhifyn mis Ionawr, wrth ddiolch i John am ei wasanaeth hollol arbennig dros Y Cardi Bach, bu'n gyfrifol am erthygl "I'ch Diddori / Clonc a Phosau am dros 30 mlynedd a fe hefyd cafodd y weledigaeth o sefydlu a cydlynu'r Clwb 200 ar gyfer ein papur bro. Gwnaeth hyn an gyfnod hir cyn trosglwyddo'r awennau – ond nid cyn iddo lwyddo i ddenu dros 1,000 o aelodau ar un achlysur, sy'n hollol rhyfeddol.
Rwy'n cofio Clive Cwm Meils yn dweud wrth John un tro bod y Gogs yn debyg i "piles" – pan ma nhw'n dod lawr ac yn mynd nol lan, ma nhw'n iawn, ond pan ma nhw'n dod lawr ac yn aros lawr, ma nhw'n boen yn y pen ol! Wel, diolch byth bod John Arfon wedi aros lawr ma yn Nyffryn Taf, bu ei gyfraniad i'w fro mabwysiedig yn hollol arbennig – drwy gydol ei yrfa fel athro mathemateg,
sefydlu Perlau Taf, fel aelod diwyd o gangen Hoelion Wyth Hendy Gwyn ( ers y cychwyn ) ac am ei gyfraniad aruthrol dros bapur bro
Y Cardi Bach. Roedd ei frwdfrydedd yn hollol heintus ac roedd yn ffrind i bawb.
Cofiwn am ei gonsyrn dros eraill, ei wen lydan a'i anogaeth barhaus. Mae'n gadael bwlch enfawr ar ei ol ond diolchwn am y fraint o gael ei adnabod, coffa hyfryta amdano.
( Gol )



## Dathlu Gŵyl Ddewi



**Rhai o ddisgyblion Ysgol Llys Hywel yn eu gwisg Gymreig**



**Rhai ddisgyblion Ysgol Griffith Jones yn dathlu Gŵyl Dydd Dewi.**



**Dyma Doti Sion yn mwynhau dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn eu gwisg Gymreig.**

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis<br>01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Marian Thomas<br>01994 230121 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James<br>01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies<br>01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White<br>01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Jason a Gwen Lye-Phillips<br>07930 520564<br>46 Resevoir Road<br>Tanerdy<br>Caerfyrddin<br>SA31 2ER |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott<br>01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips<br>01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas<br>01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **8fed** o bob mis, drwy e-bost i'r Cardi Bach.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.


Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, Caerdydd*

Daeth y newyddion trist am farwolaeth y llenor, prifardd a dramodydd Eigra Lewis Roberts yn ddiweddar. Yn cyhoeddi ei chyfrol gyntaf yn 20 oed, cafodd yrfa faith. Ysgrifennodd ddegau o nofelau, cerddi, dramâu, a sgriptio cyfresi drama. Roedd ei chyfraniad yn aruthrol i lenyddiaeth a diwylliant Cymru.

Ar ôl tyrchu ar y we, llwyddais i gael copi ail law o'i chyfrol gyntaf Brynhyfryd, ac yn ffodus iawn, roedd ar gael mewn siop Gymraeg dafliad carreg o'r tŷ, ac yn fy nwylo o fewn 12 awr.

A hithau'n awdur y gyfres ddrama boblogaidd Minafon yn yr 80au pan sefydlwyd S4C, cafodd Eigra Lewis Roberts deyrnged hyfryd ar Radio Cymru gan yr actor John Ogwen a oedd yn chwarae rhan un o brif gymeriadau'r gyfres honno, Dic Pŵal.

Chwaraewyd arwyddgan Minafon yn ystod y deyrnged ac mi lifodd yr atgofion yn ôl i'r cyfnod hwnw. Difyr oedd sylw John Ogwen fod 200,000 yn gwylio'r gyfres, sy'n profi poblogrwydd y gyfres hon a nifer o gyfresi eraill ar y pryd – oes aur teledu traddodiadol gellid dadlau.

Rydw i'n cofio noson gyntaf y sianel yn Nhachwedd 1982 pan groesawodd Owen Edwards ni i aelwyd S4C. O Superted, i Almanac, Diar Diar Doctor a'r gyfres Gwydion yn yr wythnos gyntaf i gyfresi drama fel Bowen A'i Bartner. Ond roedd Minafon yn dipyn o ffefryn yn ein tŷ ni, gyda chymeriadau cofiadwy.

Pwy sy'n cofio Dic Pŵal, Hannah Haleliwia, Magi Goch, Mati Huws, Dei Ellis ac Eunice Murphy tybed? Roedd pedair cyfres rhwng 1983 ac 1989. Gydag arferion gwylio wedi newid bellach lle mae modd gwylio cyfresi ar alw, byddai'n wych pe bai modd ail wylio'r gyfres wych hon, a gafodd ei chyflwyno yng nghylchgrawn Sbec fel:

"Stryd o dai rhywle yng Ngogledd Cymru. Ar yr wyneb, mae pob dim yn ddedwydd, ond wrth edrych y tu ôl i'r llenni mae'n stori wahanol: problemau priodasol, diweithdra, creulondeb corfforol a phroblem iaith."

Roedd y gyfres yn seiliedig ar gymeriadau yn nofelau Eigra Lewis Roberts, Mis o Fehefin a Ha' Bach.

Wedi i mi orffen Brynhyfryd, bydd angen chwilota am y ddwy nofel honno hefyd.



## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Trefina Jones
01267 211210
tjtrefina@aol.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch. Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.com
Tabernacl Heather Jenkns
Meryl James
meryljames534@btinternet.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Jayne Young
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Eurfyl Lewis
01994 419495
eurfyllewis@btinternet.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Delyth Ifan
07875 289248
delythifan@gmail.com
SANCLÊR: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@outlook.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Elonwy Phillips*

Tybed faint ohonoch chi sydd wedi cerdded, beicio neu efallai redeg ar hyd llwybr Dyffryn Tywi? Pan fydd y gwaith wedi ei gwbwlhau, bydd y llwybr yn dilyn cwrs yr afon Tywi a'r hen reilffordd o Abergwili yr holl ffordd i Landeilo, rhyw bellter o un milltir ar bymtheg. Mae'r llwybr newydd hwn yn gwahodd pawb o bob oed i droedio'r cyfan neu ran ohono, ac ar yr un pryd allu gwerthfawrogi harddwch Dyffryn Tywi, y dyffryn prydferthaf yn y byd ! Mae'r darn o Nantgaredig i Abergwili mor gyfarwydd i mi. Dyma'r olygfa a welais yn ddyddiol o lawr uchaf bws Daniel Jones, Abergwili, ar fy nhaith i'r ysgol uwchradd yng Nghaerfyrddin. Hanner canrif yn ddiweddarach y mae cwrs yr afon wedi newid ychydig, a nifer o goed wedi cael eu diwreiddio gan lifogydd y gaeaf. Bydd eraill ymhen hanner canrif eto yn siwr o weld ystumllyn arall wedi'i chreu wrth i'r Tywi ymdroelli tua'r môr.
Dwi'n siwr y bydd y llwybr hwn yn denu cannoedd o ymwelwyr dros gyfnod y Pasg eleni. Efallai na fydd gennych chi yr awydd na'r egni i gerdded llwybr Dyffryn Tywi. Ond mae na lwybr arall sydd yn agored i chi i gerdded, sef Llwybr Pasg 2026. Yr ydym ni i gyd wedi cerdded ar hyd y llwybr hwn ddegau o weithiau, ac yn gyfarwydd â'r daith, ond ga i eich gwahodd, eleni i gerdded y llwybr fel petai am y tro cyntaf, gyda rhyfeddod plentyn. Y "Via Dolorosa", Ffordd y Dioddefaint yw'r llwybr sydd yn agored i chi y Pasg hwn. Wnewch chi ddim gor-flino, oherwydd mae na bedair ar ddeg o orsafoedd i chi aros, er mwyn ystyried arwyddocad bob un.
Mae'r orsaf gyntaf yn cynrychioli condemnio'r Iesu i farwolaeth.
Nid oedd Peilat yn gweld dim bai arno, ond eto fe roddodd y cynnig iddynt i ollwng Barabbas neu'r Iesu. Beth fydden ni yn ei wneud heddiw? A fydden ni yn euog o gondemnio'r Iesu? Y pumed gorsaf yw'r un lle y gwnaeth Seimon o Gyrene gynnig helpu'r Iesu i gario'r groes. A fydden ni sy'n galw ein hunain yn Gristnogion wedi gwneud yr un peth? Mae tair o'r gorsafoedd yn cynrychioli'r ffaith i'r Iesu syrthio ar y ffordd i Golgotha. I ba raddau y byddem ni fel un o'r dorf wedi bod yn barod i'w helpu? Yr ydym ni yn aml y dyddiau yma yn syrthio o dan bwysau ein bywydau prysur, yn dioddef poen meddwl, a ddim yn gwybod a allwn ni mewn gwirionedd gario ymlaen. Dyna pryd mae'r Iesu yn ymddangos ar ein llwybrau ni, yn ein helpu pan ma'r daith yn anodd, ac yn ein codi os byddwn yn colli gafael ac yn syrthio.
Mae'r pedair gorsaf olaf ar y "Via Dolorosa" yn ein hatgoffa o Grist yn cael ei hoelio ar y Groes, yn marw, yn cael ei dynnu i lawr o'r Groes a'i roi yn y bedd. Yr ydym ni wedi darllen yr hanes droeon, gai eich gwahodd i'w ddarllen eto yn ystyrlon eleni. Mi fydd nifer fawr ohonoch mewn oedfa gymun dros y Pasg. Meddyliwch wrth fwyta'r bara – a ydych chi yn blasu halen Ei boen yn y bara. A beth am y cwpan ? A oes blas y gwaed yn y gwin ? "O, yr oeddem ninnau yno, ond yr ydym rhywsut wedi hen anghofio".
Llwybr Pasg 2026. Cyfle arall i ni i holi ein hunain am ein perthynas ni â'r Crist atgyfodedig. I wneud yn siwr ei fod yno ar y llwybr yn ein hymyl i'n diogelu. I'n cynorthwyo ni i gario ein croesau personol ni, am fod baich bywyd yn aml yn rhy drwm i ni.

"Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
Cododd ein Gwaredwr, daeth o'r rhwymau'n rhydd."

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Ym mis Mawrth bob blwyddyn cynhelir Diwrnod y Llyfr ac eleni mae'n Flwyddyn Genedlaethol Darllen. Prif nod yr ymgyrch yw deffro awydd darllen mewn plant a'u teuluoedd. Ac mae angen dechrau'n gynnar. Yn nôl un erthygl a ddarllenais, mae darllen ar goedd i fabanod ifanc iawn yn helpu i ddatblygu eu hymennydd. Mae gwrando ar rythm y geiriau a llais yr oedolyn yn gysurlon iddynt. Dywedir mai dim ond 42% o blant sy'n cael y profiad. Beth am y 58% sy'n weddill?

Darllenais mewn erthygl arall bod 90% o ddatblygiad ymennydd plentyn yn digwydd erbyn i'r plentyn fod yn 5 oed ac os nad yw ei iaith wedi datblygu erbyn dechrau'r ysgol bod ei siawns o lwyddo yn oedolyn wedi'i leihau'n sylweddol. Yn wir, mae tystiolaeth o'r OECD yn datgan bod darllen er pleser yn rhagfynegiad o lwyddiant plentyn i'r dyfodol. Mae angen i'r ieuenctid ein gweld ninnau 'r oedolion yn cael blas ar ddarllen. Bu Beirdd Plant Cymru yn galw'n ddiweddar ar y Llywodraeth i weithredu i ariannu darllen mewn ysgolion yn well.

Cefais fenthyg nofel ddiweddara John Alwyn Griffiths, **Dan Ormes** gan ddarllenydd brwd Pwll Trap. Nid yw'r awdur hwn byth yn siomi i'r rhai ohonom sy'n mwynhau nofelau ditectif. Mae llofruddiaeth erchyll wrth gwrs ond erbyn hyn mae mab y ditectif yn ei arddegau ac wedi'i dynnu i fyd y fêps a'r rheiny'n cynnwys cyffuriau. Dylid eu gwahardd yn llwyr yn fy marn i! Mae ei wraig bellach yn weithiwr cymdeithasol a thrais domestig yn ganolog i'r stori. Dyfynnaf un honiad brawychus o'r nofel, bod 'un allan o bob pum person yn y wlad 'ma yn dioddef camdriniaeth ddomestig o ryw fath, a merched ydi'r rhan fwyaf ohonyn nhw.'

Ystadegyn arall i'w ystyried.

Taith ar drên i gwrdd â'r ŵyr bach wythnos oed yn Llundain roddodd gyfle i ddarllen dau lyfr arall. Mae nofel Sian Rees, **Bron y Nant** yn llifo'n rhwydd rhwng penodau'r presennol a'r gorffennol ac mae trais yn erbyn merched yn gysgod dros y ddau gyfnod yn hon hefyd. Mae Esther yn etifeddu bwthyn ar ôl hen fodryb iddi a 'doedd hi erioed wedi ystyried bodolaeth ysbrydion,' meddai. Felly minnau hefyd nes gwrando ar y diweddar Parch. Towyn Jones yn adrodd straeon iasoer i'r Aelwyd yn Llangynin slawer dydd! Oes, mae ysbryd geneth yn tarfu ar furddun Bron y Nant. Mae ynddi elfen o stori garu, a digon o ddirgelwch wrth geisio datrys achos o'r gorffennol i gynnal diddordeb darllenydd – perffaith ar gyfer y daith - er bod tro annisgwyl ar ei diwedd.

Dim ond penodau cyntaf cofiant Aled Eurig i **Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder** llwyddais i'w darllen ar y ffordd adre – y trên yn orlawn o gefnogwyr rygbi ar y ffordd i'r gêm! Mae'n hynod o ddarllenadwy, wedi'i ymchwilio'n eithriadol o fanwl. Gan fod fy nhad wedi olynu tad gwrthrych y llyfr fel gweinidog Seion Llanrwst roeddwn yn gyfarwydd â'i gefndir. Yno y cwrddais â John Arfon annwyl a fu'n gyfaill eithriadol i'r Cardi Bach am gyhyd. Mae'r bennod gyntaf, ar sail tystiolaeth Dafydd ei hun a rhai o'i gyfoedion, yn hynod feirniadol o gulni anghydffurfiaeth y cyfnod a gallwn uniaethu â'r profiad hwnnw i raddau. Does dim dwywaith bod ei fagwraeth wedi'i feithrin fel gwleidydd a'r gyfrol hon yn gofnod o ddatblygiad democratiaeth ddatganoledig yng Nghymru – gwerth ei darllen.

Er i mi bwysleisio darllen i blant ar y dechrau, dywedir bod oedolion sy'n darllen yn heneiddio yn well! Un o'r cynghorion a roddwyd gan angel o nyrs ar ôl i'r gŵr gael strôc oedd i'w annog i ailgydio mewn llyfrau a darllen ac fe wnaeth wahaniaeth mawr. Felly, darllenwch bobol!

# Coginio

Winnie James Phillips

BYNS Y GRÔG

**Cynhwysion**

- 500g blawd gwyn cryf
- 75g siwgr
- 7g burum sych cyflym
- 1 llwy de halen
- 1 llwy de sinamon
- 1/2 llwy de nytmeg
- 300ml llaeth cynnes
- 50g menyn (wedi toddi)
- 1 wy
- 150g rhesins neu gyrens
- Croen oren neu lemon wedi'i gratio (dewisol)

Ar gyfer y croesau

- 75g blawd
- tua 5 llwy fwrdd dŵr

Ar gyfer y sglein:

- 2 lwy fwrdd jam bricyll neu fêl

**Dull**

1. Mewn powlen fawr, cymysgwch y blawd, siwgr, burum, halen a'r sbeisys.
2. Ychwanegwch y llaeth cynnes, menyn wedi'i doddi a'r wy. Cymysgwch nes bod toes yn ffurfio.
3. Tylinwch y toes am tua 8–10 munud nes ei fod yn llyfn ac yn elastig. Ychwanegwch y rhesins a'r croen oren wrth dylino.
4. Rhowch y toes mewn powlen wedi'i iro'n ysgafn, gorchuddiwch a gadewch iddo godi am tua 1 awr.
5. Rhannwch y toes yn 12 darn a'u siapio'n beli. Rhowch nhw ar hambwrdd pobi gyda phapur pobi. Gorchuddiwch a gadewch iddynt godi eto am 30–45 munud.
6. Gwneud y croesau
Cymysgwch y blawd a'r dŵr i wneud past trwchus. Rhowch y past mewn bag pibio a phibellwch groes ar ben pob bynen.

7.Pobwch mewn ffwrn ar 200°C (180°C fan) am 15–20 munud nes eu bod yn euraidd.

Sgleinio

Cynheswch y jam bricyll neu'r mêl a'i frwsio dros y byns tra maent yn gynnes.

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

**Llenwch y bylchau er enghraifft Rhif 1 (Athrawon)**

1. Mae pob un o'r ______ (athro) yn yr ysgol yn gwathio'n galed.

2. Mae Mair a Gwyneth yn edrych ymlaen _______eu gwyliau.

3. Pan ______(dod) Geraint wythnos nesa, bydd popeth yn iawn.

4. "Ffoniarist ti dy dad?" "______, wrth gwrs, ond ches i ddim ateb."

5. Ar ôl ennill y gystadleuaeth, roedd y côr _____ falch iawn.

6. Cofiwch ddiwedd y stori _______ fe pan ffoniwch chi fe.

7. _____ y babi ormod o anrhegion Nadolig.

8. Cwrddais i â'r cerddwyr. Roedd rhai _______ nhw wedi cerdded 10 milltir.

9. Mae'r Wyddfa yn llawer ____ ___(isel) nag Everest.

10. Bydd Eirian yn rhoi anrheg ____ chwaer.

11. Oes syched ______ ti?

12. Roedd tri ___________ gyda hi – dau fab ac un ferch.

13. Rhaid i mi gofio talu Mam. Mae ______ i £2 iddi hi.

14. Faint o ____ (gwlad) sy yn yr Undeb Ewropeaidd?

15. Dwi'n credu ____ Guto ddaeth gyntaf yn y ras.

16. Gweithiais i yno am dair __________ (blwyddyn).

17. Mae cystadlu'n ____ (pwysig) nag ennill.

18. _____ (Gofyn) i lawer o gwestiynau ar ôl y cyfarfod neithiwr.

19. Mae Tristan yn canu'n dda, ond dyw e ddim cystal ___ Trefor.

20. Hoffwn i ddysgu llawer o ____ (iaith).

21. Deg o'r gloch! Mae'n hen bryd ___ fe fynd i'r gwely.

22. Pan ____ (gweld) y plant y bisgedi, collon nhw ddiddordeb yn y brechdanau.

23. Mae 15 ____ ni yn y côr.

24. Dwi ddim yn gallu clywed. Allech chi siarad yn ____ ___(uchel).

25. Ar ôl y parti aeth Meleri yn ôl ___ thŷ.

26. Roedd gardd o flaen y tŷ, a lle parcio y tu ôl ___ fe.

27. Ar ôl iddo fe dyfu, bydd e'n ________ (tal) na fi, dwi'n siŵr.






HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

**Cysylltwch y cwestiynau a'r ateb addas, efallai bod mwy nag un fydd yn siwtio.**

| | |
|---|---|
| Mae llawr o swyddi yn y papur heddiw.<br>Beth sy'n digwydd i'r swyddi? | *Cawson nhw eu peintio*. |
| Rhedon ni bant o'r Taj Mahal cyn cael y bil.<br>Beth ddigwyddodd i Mr. Singh? | *Cân nhw eu diswyddo.* |
| Mae'r tŷ yn llawn asiantaeth 'Halifax'.<br>Beth ddigwyddir i'r tŷ? | *Cafodd hi ei cholli.* |
| Mae 'Hamlet' ymlaen yn y theatr ar hyn o bryd.<br>Beth sy'n digwydd i'r ddrama? | *Chafodd e ddim o'i dalu.* |
| Dau, dim, iddyn nhw oedd y sgôr.<br>Beth ddigwyddodd i'r gêm? | *Mae hi'n cael ei pherfformio.* |
| Mae'r plant yn chwarae pêl yn yr ardd.<br>Beth ddigwyddir i'r ffenest? | *Maen nhw'n cael eu hysbysu.* |
| Dyw'r car ddim yn ffrwt nawr.<br>Beth oedd yn digwydd i'r car awr yn ôl? | *Dw i wedi cael fy nghyhuddo.* |
| Gwelodd y prifathro'r plant yn smygu.<br>Beth ddigwyddodd i'r plant wedyn? | *Mae hi'n cael ei llenwi.* |
| Mae'r llafrin mynd i gau.<br>Beth ddigwyddir i'r gweithwyr? | *Chaf i ddim o udatau.* |
| Mae'r ysgrifenyddes bron â gorffen.<br>Beth sy'n digwydd i'r llythyr ar hyn o bryd? | *Cafodd e ei losgi.* |
| Roedd y lasagne'n barod erbyn 7.30.<br>Beth oedd yn digwydd i'r lasagne am 7.00? | *Roedd e'n cael ei lanhau.* |
| Prynais i ddeg tun o 'Dulux' ddoe.<br>Beth ddigwyddodd i'r waliau? | *Caiff e ei werthu.* |
| Byddai i'n gorffen y ffurlen cyn bo hir.<br>Beth sy'n digwydd i'r ffurlen ar hyn o bryd? | *Roedd e'n cael ei goginio.* |
| Roedd yr heddlu'n meddwl law fi oedd yn gyfrifol.<br>Beth sy wedi digwydd i fi? | *Cawson nhw eu cosbi.* |
| Does dim arian gyda (gan) fy nghwsmeriaid.<br>Beth ddigwyddiff i fi? | *Caiff hi ei thorri.* |
| Doedd Twm ddim wedi diffodd ei sigarét yn iawn.<br>Beth ddigwyddodd i'r tŷ? | *Mae e'n cael ei deipio.* |






# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Cyfarchion y gwanwyn i chi gyd! Mae gweld y cennin Pedr yn ein perthi ac ambell i oen bach newydd yn prancio'n ein caeau, yn arwydd gobeithio fod tymor y gwanwyn wrth y drws.
Mae'n amser i gael y Cardi Bach unwaith eto a hyfryd yw nodi bod sawl un wedi ymaelodi'n barod eleni, gan gynnwys sawl aelod newydd. Serch hyn, mae yna ddigon o le i ragor!
Bydd rhestr o holl aelodau'r clwb yn ymddangos yn rhifyn mis Ebrill o'r Cardi Bach.


Diolch yn fawr,
Rhian.

# MERCHED Y WAWR

## Cangen SanClêr

Cyfarfu'r aelodau yn Yr Hen Ysgol ar Nos Fawrth, Chwefror 10fed.
Croesawyd pawb gan y llywydd, Eileen. Dymunwyd yn dda i Pat sydd wedi torri ei phigwrn.
Llongyfarchwyd Marian ar enedigaeth ŵyr newydd sef Macsen Jac. Daeth y newydd da ar ddechrau'r cyfarfod.
Cyflwynodd Eileen y siaradwraig wadd, sef Dr. Llinos Roberts o Lannewydd. Mae Llinos yn adnabyddus fel meddyg teulu, i'w gweld yn gyson ar Prynhawn Da yn trafod materion meddygol ac yn golofnwraig yng nghylchgrawn Y Wawr.
Cafwyd noson ddifyr yn ei chwmni. Bu'n son am y modd y dewisodd hyfforddi'n feddyg ac am ei gyrfa fel meddyg a darlithwraig. Hefyd cafwyd cwis a bu'n son am nifer o glefydau cyfarwydd. Dysgon ni a mwynhau ei chwmni.
Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Nia.
Rhoddwyd y raffl gan Doreen ac fe'i henillwyd gan Sally. I ddiweddu'r noson mwynhawyd lluniaeth ysgafn hyfryd a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol.






## Cangen Beca

Daeth Ann a Kenvin Morris, Maenclochog atom i ddangos sleidiau o'u gwyliau yn Rwsia yn ystod yr 80au.Roedd y lluniau'n arbennig, yn dangos cyfoeth ac ysblander eglwysi ac amgueddfeydd Leningrad a Moscow.Yr aur a'r gemwaith mor amlwg, ond hefyd tlodi y werin bobl i'w weld o gwmpas y dinasoedd a phentrefi cefn gwlad Rwsia.Roedd yn agoriad llygad i ni gyd.Mis Mawrth byddwn yn dathlu ein nawddsant gyda chawl ac ambell gân yng Nghaffi Beca.

## Cangen Gronw

Ar brynhawn Iau Chwefror 27ain ar waetha'r tywydd stormus, troi am Gaffi Beca wnaethom i ddathlu Dydd ein Nawddsant, Roedd criw da ohonom wedi dod ynghyd a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb rhai aelodau. Roedd naws hyfryd i'r prynhawn ar ei hyd.
Croesawyd pawb gan Susan oedd yn lywydd y dydd ac estynoddd groeso arbennig i'r gwestai gwadd sef Mrs. Jiwli Higginson. Son am uchafbwynt y dydd wel dyna wnaethom brofi. Mae Jiwli'n byw yn Llanwinio gyda'i gwr Phil ac mae ganddynt dri o blant ynghyd ag wyrion erbyn hyn. Brodor o Landysilio ydyw wedi dilyn gyrfa ddisglair iawn ym myd addysg a diddordeb mawr ym myd y gân. Wedi cymhwyso fel athrawes dechreuodd ei siwrnai yn Ysgol Penffordd ac wedi iddi gau, bu am gyfnod yn Ysgol Hendygwyn cyn fod yn athrawes fro. Nesaf cafodd swydd yn Ysgol Bwlchygroes ac yna i Tegryn neu fel yr adwaenwyd, Ysgol Clydau. Fe'i penodwyd wedyn yn Brifathrawes Ysgol y Frenni yng Nghrymych a dyna lle bu tan i Ysgol Bro Preseli gael ei sefydlu a gwnaeth y penderfyniad o ymddeol yn gynnar. Son am sampler o brofiadau amrywiol a chysylltiadau diddorol rif y gwlith. fe'i clywsom i gyd a credwch chi fi roedd yna dipyn o chwerthin. Er gwaetha'r tywydd tu fas, roedd yna gynhesrwydd, a gwerthfaworgiad yn yr ystafell a phawb wedi mwynhau'n aruthrol, Diolch cynhesaf iddi am brynhawn o wir adloniant. Diolch yn fawr hefyd i Robert a Staff Caffi Beca am baratoi mor dda ar ein cyfer ac am y wledd a gafwyd - y cawl blasus, dewis o bwdinau amrywiol, pice ar y mân a'r tê neu goffi. Dathlwyd Dydd Gwyl Ddewi mewn steil a braint oedd cael bod yno.
Cadwn ein ffydd yn fyw ar ddydd yr Wŷl a phob dydd o'n bywyd. Cofiwn neges Dewi Sant "Gwnewch y pethau bychain". Cofiwn ac ymffrostiwn yn ein hetifeddiaeth ac anelwn at fod yn wir Gymry hollol gydwybodol drwy'r flwyddyn.



**Dyma lun o'r aelodau yng nghwmni Jiwli.**

## Cangen Hendygwyn

Un ohonon ni fu'n ein didanu ni yng nghyfarfod mis Chwefror, sef Christian Donovan. Erbyn hyn mae llwyr feistrolaeth ganddi ar yr iaith Gymraeg a phleser pur oedd gwrando arni'n ein harwain ni ar daith drwy dair o wledydd yr Affrig - Ethiopa, Toga a Benin. Mae Christian wrth ei bodd yn crwydro yn yr Affrig ac yn hyddysg iawn yn eu traddodiadau a'u credoau. Cawsom weld casgliad cynhwysfawr o'i lluniau a'i fideos hefyd. Cawsom gyfle i'w holi ar y diwedd - sesiwn ddiddorol iawn.
Gan ei bod yn ddydd Mawrth Ynyd,roedd Llinos, sydd bellach yn rhedeg Caffi Hywel Dda, wedi paratoi dau blatiaid mawr o bancws i ni fwynhau gyda'r te roedd Carole Young a Ann Lewis, Llandysilio wedi ei baratoi i ni. Pallodd Llinos ddebyn dimau goch am y pancws ac ry ni'n ddiolchgar iawn iddi. Dosbarhwyd llyfrau raffl i'r aelodau i'w gwerthu er mwyn codi arian i dalu am babell MyW ar faes Eisteddfod y Garreg Las. Anfonwyd ffurflen oddi amgylch er mwyn archebu crysau polo newydd MyW - rhai pinc gyda logo'r Mudiad ar y blaen a 'Positifrwydd Pinc' ar y cefn. Bydd elw'r gwerthiant yn mynd tuag at ymgyrch Bethan, ein Llywydd Cenedlaethol, sef Ymchwil Cancr Cymru.
Tristwch mawr i ni fel cangen oedd clywed am farwolaeth Eilir Davies, un o'n haelodau annwyla, oedd bob amser mor ffyddllon a pharod i gefnogi'n gweithgareddau. Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll gyda'i theulu a'i ffrindiau.Braf oedd gweld Pat Price nol ar ei thraed ar ol torri ei phigwrn. Ein Cawl blynyddol fydd fis nesa am hanner awr wedi tri yn y Ganolfan gyda cwis i ddilyn.


DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

# BLAENWAUN

**Moriah Blaenwaun**
Mwynhawyd Gwyl Rhinwedd a Moes yn fawr iawn ac ar ôl brecwast blasus cafwyd cyflwyniad diddorol dros ben gan Cleif Harpwood yn olrhain hanes ei fywyd.
Yn anffodus gohiriwyd oedfa Mawrth 1af oherwydd afiechyd ein gweinidog. Mwynhaodd rhai o'r aelodau ddathliad Gwyl Dewi yn Neuadd Llanboidy. Dathliad haeddiannol.
**Oedfaon**
Ebrill 5ed: Oedfa Pasg 2 o'r gloch. Cymun Undebol Parchedig Gareth Ioan.
Ebrill 19eg: 2 o'r gloch. Nigel Davies
Mai 3ydd: 3.30yp Parchedig Gareth Ioan.
Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

# CWM MILES

Cafwyd oedfa fendithiol o dan arweiniad Orinda Roberts ar ei hymweliad cyntaf. Hyfryd oedd croesawu ei mam sef Jennifer Jones i'r oedfa hefyd.
Ebrill 26ain. Cymun 2 o'r gloch Donna George.
Hyfryd yw gweld bod ein trysorydd Geraint James a Dewi Evans ar wellad.

# SANCLÊR

Cydymdeimlwn â theulu Amy Adams , Heol Dinbych y Pysgod, a fu farw ar Chwefror 21ain.. Cofiwn am Amy fel aelod ffyddlon o gapel Trinity ac fel aelod o gôr SanClêr dros y blynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i merch Julie a'r teulu ar eu colled.
Bu farw Eifion Snelling o Stryd y Bont ar Chwefror. 22ain. Cydymdeimlwn â'i wraig Jean, ac Aled, ei fab, ar eu colled.
Penblwydd hapus i mamgu / mam sef Bethan Davies, Heol Backe a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed y mis hwn. Cariad mawr oddiwrth Lyn, Iwan, Rhodri, Hannah, Thom a Tobi.

# TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Owain a Miriam, Henffald ar enedigaeth eu mab, brawd i Eiri a Myrddin ac wŷr arall i Terry a Meinir, Fronglyd.
Penblwydd hapus i Teleri James, Fronglyd sy'n dathlu penblwydd arbennig.
Gwellhad llwyr a buan i Steve Walters, Blaen Nant sydd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod yn ddiweddar. Hefyd i Simon Farrant, Parc y Bedw sydd hefyd yn yr ysbyty ac yn disgwyl llawdrinaeth yn fuan.
Llongyfarchiadau arbennig i holl blant yr ardal sydd wedi bod yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch a Sir ac a fydd yn cynrychioli ei hardal ac ysgolion yn Eisteddfod yr Urdd yn Ynys Môn.

# MEIDRIM

**Henoed**
Buon yn dathlu dydd Gwyl Dewi Sant yn Neuadd Ieuenctid Meidrim. Daeth 28 ohonom at ein gilydd i fwynhau cawl bendigedig a gafodd ei baratoi gan Christine James a'i mam Sally. Nid yn unig y cawl oedd yn flasus ond y danteithion arall pwrpasol ar gyfer dydd ein Nawddsant. Diolch i Glyn am ddod a chaneuon Cymraeg i chwarae yn y cefndir. Diolchodd Meirion Morris iddynt am y wledd. Cawsom gyfarfod byr i drafod digwyddiadau'r dyfodol. Croesawodd Glyn James 2 aelod newydd - Peter ac Ann Crowdie. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 7ed pan fydd Delyth Robinson yn siarad â ni am sut mae'n gwneud sebon allan o laeth. Yn gyfrifol am y te - Lilian, Shirley, Meirion, Sally. Rhoi raffl - Patsy, Lilian, Ambrose, Violet.

# LLANGLYDWEN

Llongyfarchiadau i Sandra Phillips, Pontcanna, Caerdydd (gynt o Langlydwen) a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed dydd Sadwrn, Ebrill 11eg. Llawer o gariad oddiwrth Dianne, Kaye, Lynnette, Barry, Ryan a'r teulu oll.





R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972

## RHYDYCEISIAID

Pleser oedd cael gwasanaeth Mr Sion Page yn yr oedfa Gymun ar Sul, Mawrth 8ed a diolch iddo.

## CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**
Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Mawrth 1af dan ofal Y Parch. Eirian Wyn Lewis ac oedfa dan ofal Y Parch. Huw George ar Sul, Mawrth 8fed. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth.
Pleser oedd croesawu Owen Griffiths i'r oedfa ar Mawrth 8fed. Mae'r teulu wedi symud i Rowans, Cwmfelin Mynach ers dechrau'r flwyddyn a dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn ei cartref newydd.Rydym yn meddwl am Roy Reynolds, Tymore ac yn dymuno gwell iechyd i'r dyfodol.

**Brecwast Gŵyl Ddewi**
Cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca, Efailwen ar fore Sul, Chwefror 22 ain. Aeth pedwar aelod o Ramoth a bu'n fore dymunol yn gwrando ar y siaradwr gwadd sef Cleif Harpwood.

**Penblwydd**
Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Nansi Evans, Cartref Gwernllwyn (Penybont gynt) a fydd yn 101 oed ar Ebrill 25ain.

## RHYDWILYM

**Capel Rhydwilym**
Fore dydd Mercher, Chwefror 18fed daeth teulu, ffrindiau a chymdogion niferus ynghyd i'r fynwent yn Rhydwilyn i ffarwelio ag Eilir Davies. Rhoes y Parchedig Ken Thomas deyrnged hyfryd iddi, gan olrhain ei hanes a'i chyfraniad aruthrol i weithgarwch Rhydwilym. Derbynnir rhoddion er cof am Eilir, tuag at Gapel Rhydwilym, trwy law Ken Davies a'i Feibion, Trefnwyr Angladdau, Brynderwen, Clunderwen, SA66 7NQ. Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth dau aelod arall o'r capel, sef Gareth Thomas, Brynamlwg a Malgwyn Lewis o Faenclochog gynt. Cynhaliwyd angladd Malgwyn ym mynwent Honeyborough, Neyland ddydd Iau, Chwefror 26ain, dan ofal y Parchedig Geoffrey Eynon, ac angladd Gareth yn breifat yn Amlosgfa Parc Gwyn ddydd Mawrth, Mawrth 3ydd, dan ofal y Parchedig Ken Thomas a'r Parchedig Siân Elin.
Bydd Orinda Roberts yn arwain yr oedfa yn Rhydwilym am 10.30 bore dydd Sul, Mawrth 22ain.
Ar Sul, Ebrill 5ed am 2 o'r gloch bydd oedfa Sul y Pasg yng ngofal Delyth, Gwenallt ac Esther Ifan. Bydd Russell Evans yn gweinydu'r Cymundeb.
Dymunwn wellhad buan i Emrys Llewelyn sy'n Ysbyty Llwynhelig ar hyn o bryd.

## PWLLTRAP

Cydymdeimlwn â Natalie a Ceri Jones a'r teulu ar farwolaeth nain Natalie sef Helen Jones o Efailnewydd ger Pwllheli.
Mae tri o Bwll Trap yn dathlu eu penblwyddi yn 70 oed eleni, Huw Davies, Glynderi ar Fawrth 20fed a Rhys Phillips, Garreglwyd a Glyn Thomas Penupton ym mis Ebrill. Penblwydd hapus i'r tri.

Bethlehem Newydd
Gwasanaethwyd yn ystod mis Chwefror gan y Parch Euros Jones Evans a Dr. Ryland Jones.
Cynhaliwyd oedfa Gymun hyfryd ar fore Gŵyl Ddewi a braf oedd cael cwmni cynulleidfa niferus yn y gwasanaeth. Cyflwynwyd yr oedfa gan yr aelodau a gweinyddwyd y Cymun gan y gweinidog. Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan.



**Y rhai fu'n cymryd rhan yn yr oedfa.**

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk



**Y gynulleidfa yn Oedfa Gŵyl Ddewi.**

Does dim byd gwell na llond bol o chwerthin iach ac yna llond bol o gawl. Wel dyma beth gafwyd yn y Noson Gawl a Chân a drefnwyd gan Fethlehem Newydd. Cafwyd adloniant traddodiadol Gymreig gan Bois y Frenni. Codwyd £400 ar gyfer Ymchwil Alzheimer's Cymru. Diolch i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd.



**Bois y Frenni.**



**Y gynulleidfa yn mwynhau'r adloniant.**

**Tŷ Croeso**

Mae Tŷ Croeso yn cefnogi nifer o elusennau lleol ac un ohonynt yw Homeless Carmarthenshire. Yn ddiweddar cafwyd cyfraniad gan Bwyllgor Adloniant Llanwinio er mwyn prynu Pecyn Cysgu Argyfwng ar gyfer pobol sy'n hollol ddi-gartref. Aeth Tŷ Croeso ati i sicrhau bod modd prynu dau becyn arall drwy gyfraniadau gan aelodau'r capel, dynion y Sanclêr Shed yn ogystal â chyfraniadau gan unigolion eraill. Yn y llun gwelir Amanda Lince o'r elusen yn casglu'r nwyddau ar gyfer y tri pecyn. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael er mwyn sicrhau cysgod a lloches i'r di-gartref yn lleol.



Elusen arall mae Tŷ Croeso yn ei chefnogi yw Coda Ni, grŵp Cristnogol sydd yn casglu dillad a'u gwerthu er mwyn codi arian i estyn cymorth ar gyfer elusennau lleol a thramor. Daeth Maria, Morfydd a Fioled i gasglu'r dillad a gasglwyd. Daethant â bagiau o ddillad plant bach hyd at 18 mis gyda nhw ar gyfer Plant Dewi, elusen sy'n cefnogi teuluoedd â phlant ifanc. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i bawb am helpu.



Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

Daeth neges daer i Tŷ Croeso oddi wrth Lloches y Menywod yn apelio am ddillad gwely newydd ar gyfer 15 gwely sengl. Trefnwyd casgliad ariannol ynghyd â chais am ddillad gwely sengl newydd. Daeth £214 i law er mwyn iddynt brynu beth oedd eu hangen, yn ogystal a nifer o gyfraniadau o ddillad gwely oddi wrth aelodau'r capel a'r gymuned. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael.



# LLANGYNIN

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Bu noson ddifyr arall gan y Gymdeithas Gymraeg yn Neuadd y Bryn ar Chwefror 11eg yng nghwmni Aled Scourfield, newyddiadurwr lleol y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Wedi gyrfa o chwarter canrif ar y teledu a'r radio, mae ganddo ddawn dweud ar straeon llon a lleddf - o brotest lori Jones ar ben to swyddfeydd y Cyngor Sir yn Llandeilo i lofruddiaethau John Cooper yn Sir Benfro. Diolch iddo. Diolch hefyd i Nigel, Menna, a Sian am noddi'r raffl ac i Marian ac Ann am y lluniaeth. Ymunwch â ni ar Mawrth 11eg am 7 yr hwyr yn Neuadd y Bryn i wrando ar y ddarlledwraig ac awdures, Mari Grug.



**Pen blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Llinos Morris, Blaenffynhonnau, a oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 70 oed ar Fawrth 3ydd....

....ac i Roy Reynolds, Tymore, ar ei ben blwydd yn 92 oed ar Fawrth 11eg,

.....a hefyd i Arwyn Jones, Maes-y-Coed, sydd yn 50 oed ar Fawrth 24ain.



Dyma Maria Eleri Lloyd, merch fach Llŷr ac Elin, Penlan House, sydd yn edrych yn ddigon o ryfeddod yn ei gwisg Gymreig wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ymhlith y cennin Pedr. Pen blwydd hapus iawn iddi yn 2 oed ar Fawrth 21ain.

**Gwellhad buan**

Erbyn hyn mae Michael Morris, Blaenffynhonnau, yn derbyn triniaeth bellach i'w goes yn Ysbyty Treforys. Cofiwn amdano ac anfonwn ein cofion cynhesaf ato gan ddymuno gwellhad llwyr a buan iddo.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Elfed Lewis, Llys Coed, sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei wyneb yn ddiweddar

**Cydymdeimlad**

Blin iawn oedd clywed am farwolaeth Les Evans, Blaenycoed, fore ddydd Sul, Mawrth 8fed, wedi iddo dreulio cryn amser yn Ysbyty Glangwili. Cofiwn am ei deulu a'i gyfeillion ac estynnwn ein cydymdeilad dwysaf â hwy yn eu colled a'u hiraeth.

**CJ Waste cyf.**

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

**GLANDY CROSS STORES CYF**
**Glandy Cross**

*DAN BERCHNOGAETH NEWYDD*

Nwyddau di-ri ar gael ar gyfer unrhyw achlysur gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Coed Tân, 'Top up' Trydan a Loteri

POST OFFICE Esso

Ar agor Llun - Sul
6y.b - 9 y.h.

*G WILLIAMS a'i FEIBION*

Monumental Masons


*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

**Cawl a Chân yn y Bryn**

Nos Wener, Mawrth 6ed, cafwyd noson wych o adloniant Cymreig i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Bryn. Bu'n bleser i Caroline, y Cadeirydd, gael croesawu Claire Jones yn ôl i'n plith unwaith eto, Y tro hwn daeth â Chris Marshall, ei gŵr, a'u merch fach Cadi, yn gwmni iddi, a chawsom noson hyfryd yn sŵn y telynau a'r drymio ar y cajon. Wedi gwledda ar y cawl, ynghyd â phice ar y maen a phaned o de neu goffi i ddilyn,mwynhaodd y gynulleidfa wledd o gerddoriaeth fywiog gan Claire a'r delyn aur a'i theulu, a Cadi fach yn ein swyno gydag unawd neu ddwy ar ei thelyn hithau. A chafodd un o'r gynulleidfa'r fraint o gael cyn – delynores swyddogol Tywysog Cymru i gyfeilio i'r gynulleidfa ymuno i ganu 'Pen blwydd Hapus' iddo. Pen blwydd hapus Neil!



Diolch o galon i Colin Harries, Hendygwyn, ac i Bryan Jones, Castell Howell, am eu cyfraniadau tuag at y cawl ac i aelodau Pwyllgor Neuadd y Bryn, dan arweiniad Mary a gyda chymorth Menna, am eu gwaith dyfal yn paratoi'r llysiau. Diolch i Menna, Rhiannon a Marian am y pice ar y maen a diolch i Sian, Myra, Dorian, Claire a'r teulu, Eifion, Elin, The Roadhouse Restaurant a Susan am noddi'r raffl ar gyfer y noson. Gwledd o fwyd, gwledd o gerddoriaeth a chwmni cynnes.




LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Hedd Ladd Lewis am ei wasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf

Ebrill 5ed - Hedd Ladd Lewis Cymun y Pasg am 10.30
19eg – Tudur Dylan Jones – Cwrdd am 10.30

Mai 3ydd – Wyn Morris – Cymun am 10.30
17eg – Peter Thomas - Cwrdd am 10.30
31ain – Alun Lenny – Cwrdd am 10.30

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

**Brecwast Gŵyl Ddewi Gwyl Rhinwedd a Moes**
Cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi dan nawdd Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca, Efailwen ar fore Sul, Chwefror 22ain. Roedd hi'n braf i weld y lle'n llawn a bu pawb yn mwynhau  brecwast bendigedig cyn gwrando ar araith ddiddorol Cleif Harpwood. Ceir adroddiad llawn a lluniau o fewn y rhifyn hwn.

**Canolfan Ffynnonwen**
Ar nos Wener, Mawrth 6ed cynhaliwyd ein dathliad blynyddol o Ŵyl Dewi yn y Ganolfan. Paratowyd y lluniaeth gan aelodau'r Pwyllgor, yn gawl o bob blas, pice ar y maen a bara brith. Digon i borthi'r pum mil!!  Addurnwyd y  lle mewn ffordd briodol i  greu naws yr Ŵyl. Wedi bwyta llond bol a chymdeithasu, buom yn cyd ganu dan arweiniad Ceirios Jenner a Beti James a mawr fu yr hwyl. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu mewn unrhyw fodd. Cawsom Cylch Meithrin Ffynnonwen.





**Cyd ganu dan arweiniad Ceirios Jenner a Beti James.**

**Cylch Meithrin Ffynnonwen**





**Plant Cylch Meithrin Ffynnonwen yn dathlu Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr  ac yn mwynhau yn fawr.**

## LLANBOIDY

Sefydliad y Merched
Yng nghyfarfood mis Chwefror cafwyd darlith llawn gwybodaeth gan Jeff Kedward o Heddlu Dyfed Powys oedd yn trafod Diogelwch Ar-Lein.  Enillydd y gystadleuaeth am eitem anghyffredin oedd Sue Jones ac enillydd y raffl oedd Val.  Bu'r aelodau'n brysur yn ystod yr un wythnos yn gweithio a gweini rholiau bacwn ar gyfer y daith tractorau yn y pentref. Teithiodd pedair o'r aelodau i'r Fox & Hounds, Bancyfelin ar gyfer cystadleuaeth doninôs y Sir. Llongyfarchiadau i Va ar ddpd yn 3ydd a Jan am  gyrraedd y 10 uchaf, a cyfranodd y ddwy bwyntiau gwerthfawr tuag at wobrau chwaraeon y Sir. Teithiodd 7 aelod o Lanboidy i ddathliadau 100 mlwyddiant Sir Gaerfyrddin yng Nghapel y Priordy. Cariodd Denise faner Llanboidy a cafwyd darlleniad yn Gymraeg gan Nia cyn canu Jeriwsalem a mwynhau te a danteithion.

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn: 07967 220289

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

**STEVE DANIELL**
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648




**Aelodau Llanboidy yn Nathliad 100 mlwyddiant y Sir yng Nghapel y Priordy.**

**Chwaeroliaeth**
Cyfarfu'r aelodau yn y festri ar Chwefror 18fed o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd pawb i'r cyfarfod ac roedd yn hyfryd gweld Gwenda nôl ar ôl cyfnod o anhwyldeb. Croesawodd y llywydd ein gwr gwadd y Parchedig Tom Defis lle bu yn hel atgofion am ei fywyd. Diolchodd y llywydd i Tom am brynhawn diddorol a phleserus, pawb wedi mwynhau.  Yr oedd y te a bisgedi yng ngofal Mair Morgan a Rhiannon

**Taith Tractorau**
Ar Ddydd Sant Ffolant hyfryd cafwyd Taith Tractorau o amgylch yr ardal gan ddechrau a gorffen tu allan i Neuadd y Farchnad.  Gyda 36 o gerbydau'n cymryd rhan yn y daith, codwyd swm sylweddol tuag at Eisteddfod y Garreg Las. Diolch i Tudor Lewis am drefnu'r daith llwyddiannus hon, ac i'w wraig Eleri ac aelodau pwyllgor Llanwinio am weitho'r cawl blasus. Diolch hefyd i Sefydliad y Merched am ddarparu rholiau bacwn ac am weinu'r bwyd , pwyllgor Neuadd y Farchnad ac i bawb a gefnogodd y daith a'i gwneud yn llwyddiant.




**Neuadd y Farchnad**
Ar Ddydd Gŵyl Dewi cynhaliwyd Cawl a Chân i godi arian tuag at gynnal a chadw Neuadd y Farchnad.Braf oedd gweld y lle'n llawn a bu pawb yn mwynhau adloniant gan Gôr Meibion Hen-dy-Gwyn.
**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i Julie Thomas, Maes y Bryn sy'n anhwylus ar hyn o bryd.

## LLANWINIO

**Byd Amaeth**
Llongyfarchiadau i Delyth Robinson ar gael ei hethol ar Gyngor First Milk.  Mae First Milk yn fenter gydweithredol laeth sy'n eiddo i ffermwyr, ac mae'r Cyngor yn cynrychioli'r aelodau ac yn helpu i arwain cyfeiriad y busnes. Yn ogystal â ffermio, mae gan Delyth brofiad blaenorol yn y sector cig ac ym maes maeth anifeiliaid, yn ogystal â phrofiad o siarad cyhoeddus ar faterion amaethyddol. Mae Delyth yn ddiolchgar am y gefnogaeth gan gyd-aelodau ac yn edrych ymlaen at gynrychioli ffermwyr a chyfrannu'n gadarnhaol at y fenter gydweithredol. Mae Delyth yn ffermio mewn partneriaeth gyda'i rhieni a'i brawd yn fferm Rhydcaernarfon, Llanwinio. Mae hefyd wedi sefydlu busnes yn cynhyrchu sebon o laeth y fuches odro.  Pob dymuniad da iddi.



**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan*
*Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

**Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026**
**Pwyllgor Apêl Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun a Cwmfelin Mynach**
**Taith Tractorau**

Cynhaliwyd Taith Tractorau ar fore Sadwrn, Chwefror 14eg ar y cyd rhwng Pwyllgor Apêl Llanboidy a Llanwinio. Trefnwyd y daith gan Tudor Lewis a daeth 37 o dractorau i gefnogi. Paratowyd roliau bacwn cyn y daith gan aelodau Sefydliad y Merched a Clwb Crefft Llanboidy, a chawl oedd wedi ei gyfrannu gan Eleri, Meryl, Delyth a Meirwen ar ddiwedd y daith. Diolch i ferched o'r ddau bwyllgor ac roedd yn hyfryd cael cydweithio a chymdeithasu. Gwnaed elw sylweddol a diolch i bwyllgor Llanboidy am ei caredigrwydd yn rhannu'r elw. Diolchodd Wyn Evans ar ran pwyllgor Llanwinio i Tudor am drefnu'r daith ac i swyddogion pwyllgor Llanboidy am y trefniadau.

**Noson Gŵyl Ddewi**

Cynhaliwyd noson arbennig yn Neuadd Llanwinio ar nos Sadwrn, Chwefror 28ain gyda'r neuadd yn llawn. Croesawodd Geraint Evans, y Cadeirydd Dawnswyr Talog a Phil Higginson a'i fand.
Mae Dawnswyr Talog yn enwog ledled Cymru a thu hwnt am eu dawnsio traddodiadol, eu gwisgoedd lliwgar a'u hegni heintus. Unwaith eto, fe wnaethant greu noson i'w chofio, gyda rhaglen amrywiol o ddawnsfeydd traddodiadol. Cafwyd tipyn o hwyl wrth i bawb ymuno â hwy mewn twmpath. Yn ogystal, cafwyd eitemau cerddorol gwych gan Phil, Siencyn Corp a Lefi Dafydd. Roedd pawb wedi cael ei swyno gan eu gallu cerddorol. Cafwyd noson o gerddoriaeth fyw, dawnsio a chwerthin – dathliad teilwng o Ddydd Gŵyl Dewi. Diolchodd Geraint i bawb am gefnogi, i bawb fu'n paratoi'r neuadd, i'r gwragedd am baratoi lluniaeth, sef bara brith a phice ar y maen ac i'r rhai a gyfranodd wobrau raffl. Bu'n noson lwyddiannus dros ben.

Gweithgaredd olaf y pwyllgor fydd noson Rasys Ceffylau – gweler y poster
Dalier sylw: Oherwydd amgylchiadau, gohiriwyd y noson yma ym mis Medi 2025 ond mae'r tocynnau'n dal yn ddilys



Phil, Siencyn Corp a Lefi Dafydd.



Dawnswyr Talog.




the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
01994 240705 / 240055
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook




RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# EFAILWEN

**Hoelion Wyth Cangen Beca. – Cyfarfod Chwefror 25ain, 2026.**

Croesawyd yr aelodau gan ein Cadeirydd, Eifion Evans a cyflwynodd ein siaradwr gwadd sef Eifion Wyn Nicholas (Ted) o Pentlepoir;- sy'n gyn blismon a ditectif. Ychydig o'i hanes, ei brofiadau ac ambell stori oedd testun ei gyflwyniad.


O ardal Henllan Amgoed yn wreiddiol, yn un o bedwar o fechgyn. Aeth Ted ac un brawd i weithio i'r heddlu a dau arall i'r hufenfa yn Hendy-gwyn. Cafodd ei addysg gynradd yn Henllan cyn symud i ysgol ramadeg Hendy-gwyn lle synnodd pa mor Saesnig oedd awyrgylch yr ysgol. Ar ôl gorffen yr ysgol honno gyda 7 lefel 'O', penderfynodd ymgeisio i fod yn gadet gyda'r heddlu. Yn dilyn ei gyfnod gyda'r cadéts fe wnaeth ymuno gyda'r heddlu yn 1971.

Pan yn blentyn bu'n cadw cofnod o rif cofrestru pob cerbyd bydde'n pasio ei gartref. Buodd hyn o help i heddwas Hendy-gwyn un tro wrth i hwnnw wybod am ddiddordeb Ted. Wrth chwilio am gerbyd ryw drosed-dwr un tro, roedd record gyda Ted bo'r car wedi pasio drwy Henllan ar y dyddiad ar amser penodol!

Mae'n cofio y tro cyntaf iddo arestio dyn am ddwyn o siop yn Llanelli. Dyn bregus oedd wedi ei fagu mewn cartref Barnardos. Y diwrnod canlynol darganfuwyd corff y dyn mewn llyn ger pwll nofio Llanelli, roedd wedi boddi ei hunan. Mae'r digwyddiad trist yma wedi aros yng nghof Ted. Yn ystod ei gyfnod o 33 mlynedd gyda'r heddlu, buodd mewn rôl uniform, CID a gweithio fel ditectif cudd. Buodd yn delio a llofruddiaethau yng Nghaerfyrddin, Llanelli ac yn Scoveston, lle'r oedd gan yr heddlu dystiolaeth ond diffyg yr adnoddau fforensig modern i gyhuddo neb ar y pryd. Nododd bod sawl cyd-ddigwyddiad a digwyddiadau o fod yn y man iawn ar yr amser iawn, i weld neu glywed rhywbeth wedi helpu ei yrfa pan yn gweithio yng nghudd. Bu'n gweithio i'r sgwad cyffuriau yn Abergwaun, Aberystwyth a Chaerfyrddin ac roedd yn rhan o dîm enfawr oedd yn cynnwys swyddogion o un ar ddeg llynges heddlu a gymerodd rhan yn y cyrch gwrth gyffuriau LSD (Lysergic Acid Diethylamide) mwyaf erioed yn ardal Tregaron a Chanolbarth Cymru sef 'Operation Julie'.

Cafodd yr ymgyrch ei enwi ar ôl DS Julie Taylor un o'r swyddogion cudd daeth i weithio yn yr ardal. Ym mis Mawrth 1977, yn dilyn 13 mis o wylio'n gudd, gwnaeth swyddogion y cyrch arestio arweinwyr ymgyrch creu tabledi LSD a gafael ar dros filiwn ohonynt.

Cawsom amryw stori ddoniol a ddiddorol arall ganddo a diolchwyd iddo gan Eifion. Diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.



**Eifion Evans, Ken Thomas a Eurfyl Lewis yng nghwmni siaradwr gwadd sef Eifion Nicholas.**

**Brecwast Gwyl Ddewi Gwyl Rhinwedd a Moes**

Ar ddydd Sul 22ain o Chwefror fe gynhaliwyd Brecwast Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca. Roedd dros saithdeg yn bresennol o eglwysi amrywiol Dyffryn Taf a Chleddau, ac fe gafwyd amser hyfryd yng nghwmni'n gilydd. Cawsom wledd o frecwast fel arfer a hanes diddorol iawn gan y siaradwr gwadd sef, Mr Cleif Harpwood a arferai ganu gydag Ac Eraill, Edward H Dafis ac Injaroc. Cafwyd ganddo ambell gân ddi-gyfeiliant yn ychwanegiad i'r straeon difyr. Diolch i Mrs Ann Siriol Davies, Mynachlog-ddu am lefaru emyn yr Ŵyl mor ystyrlon ac i Mrs Ceirios Jenner am ei chyfeiliant yn y cefndir a'r cyfeilio drwy gydol y gwasanaeth.




DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL, HEN-DY-GWYN, SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

Diolch i'r Parchedig Eirian Wyn Lewis am lywyddu gweithgareddau'r bore a'r Parchedig Ken Thomas am weddïo.
Casglwyd £450 i goffrau 'In it with Isaac' a dymunwn yn dda iddo wrth wynebu triniaeth cancr.
Bu'n Ŵyl hapus a bendithiol ac awyrgylch gartrefol yn perthyn i'r holl weithgareddau.



**Parch.Eirian Wyn Lewis, Cleif Harpwood, Anna Williams, Parch.Ken Thomas, Ceris Llewelyn a Ceirios Jenner. Yn absennol o'r llun Ann Davies a Gwenda Mathias.**

## BANCYFELIN

**Dathlu Gŵyl Dewi**
Daeth llond festri o aelodau Cana a Bancyfelin a chyfeillion ynghyd i festri Cana ar gyfer dathliad Gŵyl Dewi ddydd Sul, Mawrth 1af. Paratowyd y cawl blasus gan Sheila Phillips a'r danteithion melys gan y gwragedd a fu hefyd yn gweini'n siriol wrth y byrddau. Cafwyd y pleser o glywed rhai o blant Ysgol Sul Cana yn llefaru darnau yr oeddent wedi eu paratoi ar gyfer yr Eisteddfod ac yna cafwyd neges gan Beti Wyn am bwysigrwydd arwyddocad y golomen a ddisgynnod ar ysgwydd Dewi Sant. Aeth pawb adref wedi derbyn boddhad a bendith o ddod ynghyd.
Diolch yn fawr iawn i bawb a fu ynglŷn a'r trefnaidau ac am bob cefnogaeth i'r ginio.



**Sefydliad y Merched**
Bu'n fraint i Sefydliad y Merched Bancyfelin gael eu gwahodd i ganu yn nathliad 100 mlynedd Sefydliad y Merched Sir Gâr, a gynhaliwyd yng Nghapel y Priordy, Caerfyrddin, ddydd Sadwrn, Chwefror 21ain.
Fe wnaethant ganu dwy gân, un yn emyn adnabyddus a'r llall yn gân a ysgrifennwyd yn arbennig gyda geiriau pwrpasol gan Beryl Owen o Sefydliad y Merched Trap i goffáu'r achlysur.



**Côr Bois y Felin**
Cynhaliodd Côr Bois Y Felin gawl a chân llwyddiannus iawn penwythnos diwethaf yn Neuadd Bancyfelin. Daeth dros 100 o bobl i'r ŵyl a chroesawyd yr unawdydd lleol Caitlyn a ganodd yn hyfryd wrth ymuno â ni am y noson.
Rydym yn ymarfer bob nos Lun am 7.30pm yn Neuadd Bancyfelin, mae croeso bob amser i aelodau newydd. Dewch i fwynhau noson o ganu ac yn bwysicaf oll cyfeillgarwch a chwerthin. Rydym hefyd ar gael i'n llogi ar gyfer priodasau, angladdau ac unrhyw achlysur arbennig, am fwy o fanylion cysylltwch â'n hysgrifennydd Emyr Vaughan ar 07788 457415.

Crymych Arms
Croeso i'r Crymych Arms
Bwyd rhagorol a chroeso cynnes
01239 831 435
crymych.arms@gmail.com

ORWE
TRADING AS
DORIAN PHILLIPS
Owain: 07879 495653
Owain @dorianphillipsbuilders.co.uk

ARWAIN
CYNLLUNIO A THREFNU ACHLYSURON ARBENNIG
Penwythnos Stag / Parti plu
Teithiau Clwb Chwaraeon / Ysgol
Penwythnos llawn gweithgareddau
Nosweithiau codi arian....a mwy
07891 922210
rhodri@eicharwain.co.uk
www.eicharwain.co.uk



Nos Lun, Mawrth 2il cyfarfu'r aelodau yn y Fox & Hounds, Bancyfelin, ar gyfer eu cyfarfod misol, a oedd yn achlysur i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mwynhawyd cawl a chacennau cri a baratowyd gan Gareth, perchennog y Fox & Hounds, ac yna cynhaliwyd cyfarfod byr. Dymunwyd pob lwc i'r tîm dartiau ar gyfer y gystadleuaeth a gynhelir ddydd Mercher, Mawrth 11eg yng Nghlwb y Cwins, Caerfyrddin.

**Dydd Gweddi'r Byd**

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel Cana, nos Wener, Mawrth 6ed. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan grŵp ecwmenaidd o ferched Cristnogol o Nigeria a thema'r gwasanaeth oedd bod angen i ni gyd agosau at Dduw a gorffwys ynddo. Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth o gapeli Cana, Bancyfelin, Gibeon a Ffynnonbedr.



**Gibeon, Bancyfelin**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y Parch. Emyr Lyn Evans ar Chwefror 9fed. Bu'n weinidog ar Gibeon o 1966 tan 1976 a roedd parch mawr iddo gan yr aelodau. Roedd bob amser yn ffrind i ni yng Ngibeon. Cofiwn yn annwyl amdano a danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Susan, ei weddw, ei fab Iestyn a'i wyrion Jac ac Elen.

Cyfrol y Parch Beti-Wyn James, "Hoff Adnodau'r Cymry" oedd thema 'r oedfa ar Chwefror 15fed. Cyflwynwyd hoff adnodau Gwyn Elfyn Jones, y Parch Beti-Wyn James, Sulwyn Thomas, Eileen Davies a'r Parch John Gwilym Jones. Gweinyddwyd y Cymun gan Rhodri Glyn Thoams a chyfeiliwyd gan Hilary. Diolch i Meirion, Beti-Wyn, Iona, Margaret a Hiefena am gymryd rhan.

Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd yng Nghana ar Nos Wener, Mawrth 6ed. "Rhoddaf orffwys i chi, dewch" oedd thema'r oedfa a baratowyd gan ferched Cristnogol o Nigeria .Diolch i eglwys Cana am y croeso, i Iona, Hiefena, Hilary, Margaret a Beti-Wyn am gymryd rhan dros Gibeon ac i Iona am ei gwaith fel ysgrifennydd Cylch Bancyfelin.

Penblwydd hapus yn 70 oed i Bethan Davies, Derlwyn Taf a oedd yn dathlu ei phenblwydd ym mis Mawrth.

Dyddiadau i'w nodi : Mai 10fed Oedfa'r Pwnc yng Ngibeon am 1.30 y.p.

Mai 14eg am 4y.p. a 7 y.h. Cwrdd Cwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin.

Croeso cynnes i bawb ar y ddau achlysur.

# CLUNDERWEN

Neuadd Gymunedol Clunderwen

Clwb Croeso
Dewch i ymuno yn ein sesiwn
Yn ein lle cynnes, mwynhewch

Cawl am ddim, diod poeth a sgwrs.

Dydd Mawrth, Mawrth 31ain
11yb tan 1.30yp

Cadwch yn gynnes - cadwch yn iach

CROESO CYNNES I BAWB

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau
cyffredinol sy'n gysylltiedig â
chwaraeon a gwaith

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**
Mis dwethaf - Chwefror - bowlio mat byr
Mis Mawrth - daeth Owain John i roi sesiwn cadw'n heini.

## LLANDYSILIO

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus iawn i Rhys Jenkins a oedd yn 30 oed ar Mawrth 5ed. Mab Carolyn a Paul Jenkins.





Hefyd i Iris Dugmore fu'n dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Mawrth 8fed.

Ac yn olaf penblwydd hapus i Ruby Olive Morgan yn flwydd oed ar Ebrill 7fed. Merch Declan a Catrin Morgan Cwmffrwd ac wyres i Rupert a Dawn Morgan o Henffordd ac Arwel a Ceris Llewellyn o Llandysilio.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Sion Pridmore ar gwblhau marathon ym Mhenbre ar Mawrth 8fed - a gwneud hynny mewn llai na 4 awr. Da iawn ti Sion.



**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Gemma a Jac ar enedigaeth merch fach ar Chwefror 14eg. Wyres i Julian a Sonia Robinson.



LLAWN CARIAD
**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Siop Siân
01239 831230
Llyfrau Cymraeg, Cardiau Cyfarch, Anrhegion Cymraeg a mwy yn gwasanaethu Sir Benfro
London House, Crymych SA41 3QE

Bwyd Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Llongyfarchiadau hefyd i Rhys ac Angharad Westlake, Nantgaredig ar enedigaeth Beca Mair Westlake ar Mawrth 2il. Chwaer fach i Elis Bryn Westlake ac wyres i John a Jane Westlake, Llangynnwr ac Arwel a Ceris Llewellyn, Llandysilio.



**Hanes Blaenconin**
Bore dydd Sul, diwrnod ein Nawdd Sant, cychwynodd yr oedfa trwy fwynhau danteithion pwrpasol i nodi'r Wyl a oedd wedi ei paratoi gan rai o'r chwiorydd. Diolch yn fawr iddynt.
Parhaodd yr oedfa, a oedd yng ngofal Dylan, drwy weddi. Yna cafwyd darlleniad gan Hilary  a chydganwyd emyn pwrpasol cyn mynd ar bererindod i'r Antarctic' ar ffilm. Roedd Dylan a'i wraig Michelle wedi bod ar ei gwyliau y flwyddyn cynt. Hanes diddorol  dros ben a golygfeydd gwefreiddiol. Bore bendigedig, diolch yn fawr. I orffen yr oedfa, cawson ddatganiad swynol iawn ar Berdoneg gan Anthony.
Diolch hefyd i Dylan am ei waith diflino i gyflwyno adroddiad yr Eglwys. Ar ol oriau o baratoi, mae'r sefyllfa ariannol yn awr yn glir.
Llongyfarchiadau i un o'n haelodau sef Heulwen Davies a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Mawrth 25ain.
Dymunwn yn dda i rai o'n haelodau ffyddlon a gobeithio byddant yn cael gwell iechyd yn fuan.
Edrychwn ymlaen i groesawu Shan Jones i'n plith ar Mawwrth 15fed.

**Gwasanaethau Pisga**
Ebrill 3ydd- 10.30 y.b Cymundeb, Gwener y Groglith
5ed – 9 y.b Cymundeb, Sul y Pasg
Y Parchedig Eirian Wyn Lewis yn gwasanaethu.

**Eisteddfod Y Garreg Las 2026**
Yn ystod y flwyddyn diwethaf, ac fel rhan o'r ymdrech i godi arian i Eisteddfod Y Garreg Las, mae dau ddyddiadur hen wedi bod yn mynd o gwmpas y ddau bentref sef Llandysilio a Clunderwen.  Roedd yn bosib prynu dyddiad o'ch dewis am £1. Penderfynwyd tynnu raffl dyddiadur Llandysilio yn ddiweddar a'r bobl fuddugol oedd Annette Llewellyn, Mary Roberts a Sadie Davies.  Diolch i bawb am gymryd rhan.


## HENDYGWYN AR DAF


**Capel y Tabernacl**
Cafwyd oedfa Gŵyl Ddewi hyfryd ar Sul, Mawrth 1af o dan arweiniad y Parchg. Huw George gyda'r plant, ieuenctid, aelodau a ffrindiau yn cymryd rhan. Edrychwyd ar fywyd Dewi Sant ac ar wir ystyr caru Cymru. Ystyriwyd ffrwythau'r ysbryd glân fel mae Paul yn eu rhestru yn ei lythyr at y Galatiaid: Cariad, Llawenydd, Tangnefedd, Amynedd, Caredigrwydd, Daioni, Ffyddondeb, Addfwynder a Hunanreolaeth. Diolch i bawb a fu'n rhan o'r oedfa.



Dyma drefn yr oedfaon dros y Pasg a gweddill mis Ebrill a chroeso cynnes i bawb ymuno gyda ni :
Mawrth 29ain : Tabernacl 10.30  : Oedfa Sul y Blodau : Mr Arwel Evans
Ebrill 3ydd : Tabernacl : 10.30 : Oedfa Gwener y Groglith : Mr Sion Page
( Paned i ddilyn yr Oedfa)







Ebrill 5ed : Tabernacl : 10.00 : Oedfa Gymun Sul y Pasg : Mr Ffred Fransis
Ebrill 12fed : Tabernacl 10.00 : Oedfa : Mrs Gret Evans
Ebrill 19eg : Tabernacl : 11.15 : Oedfa : Mr Sion Page
Ebrill 26ain : Bethel 2.00 : Oedfa'r Ofalaeth : Dr Rhian Davies

**Cymdeithas Ddiwylliannol y Tabernacl**
Ar brynhawn Sul, Mawrth 8fed cynhaliwyd Cinio Blynyddol y Gymdeithas yng Nghlwb Bowlio Hendygwyn. Cafwyd cinio dau gwrs blasus dros ben a baratowyd gan Mrs Cally Jones a'i chriw o ferched gweithgar. Yn dilyn y bwyd, croesawodd ein Cadeirydd Mr Meurig James, y wraig wadd sef Mrs Elonwy Phillips i siarad. Cafwyd anerchiad ddiddorol am ei thaith bywyd a bu tipyn o chwerthin wrth iddi adrodd ambell stori ddifyr a cherdd pwrpasol. Roedd yn braf gweld cynifer wedi ymuno ar gyfer y ginio eleni a chafwyd brynhawn hwyliog yn cymdeithasu.
Cynhelir cyfarfod olaf y tymor sef y te prynhawn ar Ebrill 7fed am 2.30 yn y festri. Mr Mel Jenkins fydd yn agor yr achlysur. Croeso i bawb.



**Swyddfa Bost yn ail-agor yn Hendygwyn**
Roedd hi'n ddiwrnod arbennig yn Hendygwyn ar ddydd Mercher Mawrth y 5ed pan ail agorwyd Swyddfa Bost yn siop Premier ar Stryd Sant Ioan. Braf o beth yw gweld Pirathapan yn ymgymryd â swydd y Post feistr ynghyd â Kavi a Bhubansh sydd yn gweithio yn y siop. Fe fydd agoriad swyddogol mewn ychydig o wythnosau.
Dymuniadau gorau iddynt a gobeithio y bydd trigolion Hendygwyn a'r cylch yn cefnogi'r Gwasanaeth unwaith yn rhagor.




Gweler Shally Blethyn a Naveen o'r Swyddfa Bost yn Glandy Cross a fu'n eu cynorthwyo a'u cynghori ar y diwrnod cyntaf..

**Bore Hwyl Hendy-Gwyn-ar-Daf**
Fe drefnodd Menter Gorllewin Sir Gâr fore hwyl yn ystod hanner tymor Chwefror yn Neuadd Goffa'r dref a roedd hi'n fore poblogaidd iawn gyda dros 60 yn mynychu, yn blant ac oedolion, i fwynhau gyda'i gilydd. Roedd y Fenter wedi paratoi llawer iawn o grefftau amrywiol yn ogystal â gwledd o gyfleoedd chwarae anniben. Roedd y plant wrth eu bodd yn defnyddio'u dychymyg yn ystod y chwarae anniben tra bod y rhieni'n hapus bod yr annibendod yn aros yn y neuadd! Roedd hi'n hyfryd cael mwynhau'r cyfan wrth wrando ar gerddoriaeth Gymraeg i nodi Dydd Miwsig Cymru, oedd yn cael ei ddathlu hefyd yn ystod mis Chwefror. Am fwy o fanylion am weithgareddau'r Fenter, dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol neu ebostiwch Menter Gorllewin Sir Gâr ar ymholiad@mgsg.cymru.











**Penblwydd**

Penblwydd hapus i Hugh Lewis, Y Ffawydd, Hendygwyn ar ei benblwydd yn 90 oed ar Mawrth 8fed.



**Pwyllgor Apêl Eisteddfod y Garreg Las Hendy-Gwyn.**




**Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn lolfa Clwb Rygbi Hendy-gwyn. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Claude James, gyda chroeso arbennig i aelod newydd, sef Mark White. Gwnaeth Claude ddatgan teimladau pawb wrth gyfeirio at farwolaeth aelod ffyddlon iawn, sef y diweddar John Arfon Jones. Bu John yn aelod ers dechrau'r gangen a byddwn yn gweld ei golli yn fawr iawn.

I ddechrau'r noson, eisteddodd pawb i lawr i fwynhau cawl bendigedig wedi ei baratoi gan staff y Clwb Rygbi. Wedi i bawb orffen bowlen (neu ddwy gan rai), diolchodd y Cadeirydd i'r staff am y wledd. Yn dilyn, cyflwynodd gŵr gwadd y noson sef Glyn Evans o Bwll Trap. Mae Glyn yn aelod ac yn drysorydd o gangen Hendygwyn a bu'n siarad am ei fywyd a'i ddiddordebau. Brodor o ardal Cei Newydd, yn un o bedwar o blant yw Glyn. Wedi gadael ysgol bu'n gweithio gada'i rieni adref ar y fferm. Cawsant gyfle i gael Maes Carafanau ar y tir a bu'r fenter yn llwyddiant mawr. Yn ystod y blynyddoedd prynwyd tair fferm arall a bu'r teulu'n ffermio pedwar can erw yn ogystal â'r Maes Carafanau. Mae ganddo lawer cymhwyster yn ymwneud â pheiriannau, ac wedi gweithio llawer yn codi adeiladau mawr fel garejis i wasanaethu a gwerthu ceir, a hynny yn Sir Benfro.Tua deunaw mlynedd nôl symudodd Glyn, ei briod Brenda a'i ddau fab i'r Gorse yn Pwll Trap, ble mae ganddynt eto faes carafanau bach.

Bu'n gweithio gyda busnes lleol yn torri lawntiau a chloddiau am gyfnod. Yn y cyfamser, cafodd gyfle i fynd ar liwt ei hunan ac erbyn hyn mae ganddo pum deg o gwsmeriaid.



Mae ganddo ddiddordeb mawr mewn gwaith coed, ac i orffen y noson dangosodd llawer o'r hyn oedd wedi ei gynhyrchu, fel powlenni ffrwythau o bob math, ffyn, canwyllbrennau ayyb. Noson ddifyr dros ben a diolchwyd i Glyn gan Rhys Phillips.

**D. E. PHILLIPS**
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
**EagleSigns**
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
**Cartref Oddi Cartref**

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Clwb 100 Canolfan a Gerddi Hywel Dda**
Dyma restr yr enillwyr diweddaraf :- 1af Colin Harries, 2il Gareth Edwards, 3ydd Siân Pugh, 4ydd Iona Scourfield-Griffiths.

**Cylch Meithrin Hywel Dda**
Diwrnod Iechyd Meddwl Plant
Buodd y plant yn gwisgo dillad lliwgar a rhannu eu teimladau. Gwrandawon nhw ar stori hapusrwydd a thrafod beth sy'n eu gwneud yn hapus.



**Blwyddyn Newydd Lleuadol**
Diolch yn fawr iawn i Bwyty Tseineaidd Hendygwyn am ycroeso cynnes a'u haelioni unwaith eto. Roedd y plant wedi mwynhau dysgu sut i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Lleuadol a blasu bwyd Tseineaidd yn fawr iawn.



**Diwrnod y pancws**
Diolch yn fawr iawn i Mrs Evans am coginio pancws gyda'r plant. Roedd pawb wedi mwynhau a wedi mwynhau blasu!



**Dydd Gŵyl Dewi**
Buodd y plant yn gwisgo gwisg traddodiadol, dysgu am Dewi Sant,  dawnsio gwerin, dysgu am llysiau sydd yn cawl, blasu pice ar y maen a phaentio Cenin Pedr.
Yn y grwp Ti a Fi ar fore Dydd Gwener, buodd y plant bach yn gwisgo'n smart iawn i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.



**Diwrnod y Llyfr**
Roedd y plant wrth eu bodd yn gwisgo i fyny fel eu hoff cymeriad llyfr a rhannu eu hoff storiiau gyda'i ffrindiau. Enillwyr Clwb 200 mis Chwefror:



HUW JONES
ADEILADWR
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

DERI PAGE
CIGYDD
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES
Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

**Enillwyr Clwb 200 mis Chwefror:**
1af- Rhif 90 - Rhys Davies
2il - Rhif 85 - Jane Thomas
3ydd - Rhif 46 - Luca a Mila Inward (c/o Christine Evans)

**Clwb 200:**
Diolch enfawr I bawb sydd wedi cefnogi Clwb 200 Cylch Meithrin Hywel Dda eleni. Mae hwn wedi helpu Codi Arian hanfodol i'r elusen. Wrth brynu Rhif, rydych yn galluogi'r Cylch I gadw ei drysau ar agor, talu staff, prynu offer a chynnig tripiau addysgiadol i'r plant.
Hoffwn nawr eich gwahodd I adnewyddu eich aelodaeth os y dymunwch (o Ebrill 2026 ymlaen). Hefyd, Mae cyfle I aelodau newydd brynu rhif(au) ac ymuno a'r Clwb 200.
Mae un Rhif yn £1 y mis - £12 y Flwyddyn. Rydym yn tynnu'r raffl bob mis, gyda gwobrau yn mynd i'r 1af, 2il a 3ydd.
Aelodau: os hoffech aros yn aelod, plis talwch mewn i gyfrif banc Clwb 200 (£12 Pob Rhif), gan ddefnyddio eich enw fel cyfeirnod. Danfonwch ebost I ni hefyd I ddweud eich bod wedi talu:
cylchhyweldda@icloud.com

Enw cyfrif: Clwb Cylch Meithrin
Cod didoli:56-00-42
Rhif cyfrif:37227696

Aelodau newydd: Danfonwch ebost I ni er mwyn cael ffurflen gais ac wedyn gwneud y taliad mewn i'r cyfrif banc uchod. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus.



LYNDON GEORGE
ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL
MOT
•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4
Offer Diagnostig Diweddaraf

Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.
•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER
Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

BAR BECA
Rhosfach, Efailwen
Guto Jenkins
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

Ken Davies a'i Fab
Cigyddion
London House
Crymych
Ffôn: 01239 831978

Siop Bapurau Hendygwyn
Premier
Ffôn: 01994 240531
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
'Rydym yn gwerthu:
Papurau, Cylchgronnau, Llyfrau, Cardiau, Tegannau, Melysion, Diodydd, Bwydydd a Hufen Ia.
Trwydded gwerthu diodydd alcohol
Loteri

Tŷ Bach Twt
Siop Anrhegion
Gift Shop
01239 831 144 / 07900 692 678
Ty Bach Twt

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRO BRYNACH

**Cwis dim Clem**
Teithiodd tîm Cwis dim Clem yr ysgol lawr i Ysgol Griffith Jones ar gyfer yr ail rownd â drefnwyd gan Menter Iaith Sir Gâr. Er iddynt golli, gwnaethant gyd-weithio yn arbennig a gwneud eu gorau glas. Pob lwc i Ysgol Griffith Jones yn y rownd nesaf.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi, cynhaliwyd Eisteddfod ysgol yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy. Gyda'r disgyblion wedi gwisgo yn eu gwisgoedd Cymreig, cafwyd prynhawn llawn adloniant a braf oedd gweld pawb yn cystadlu yn frwdfrydig. Roedd yna gymysgedd o gystadlaethau o ganu a llefaru, canu'r piano a chwarae'r ffliwt ac hefyd celf a chrefft. Hoffwn fel ysgol ddiolch yn fawr iawn i Mrs Ceirios Jenner am roi o'i hamser i feirniadu'r eitemau llwyfan, roedd yn dasg anodd rwy'n siwr. Ar ddiwedd y prynhawn cafwyd y seremoni gwobrwyo gyda Ffebi a Freddie yn ennill y mwyaf o bwyntiau yn y Dysgu Sylfaen a Lottie a Macsen yn y Cyfnod Craidd. Gydag 8 o bwyntau o wahaniaeth ac o fewn trwch blewyn, Taf oedd y llys buddugol.



**Yr ysgol yn dathlu Gwyl Dydd Dewi.**

**Diwrnod y Llyfr**
Dathlwyd Diwrnod y Llyfr ar Mawrth 5ed. Fel rhan o'r dathliad roedd yna ffair lyfrau yn yr ysgol ac hefyd trefnwyd cystadleuaeth gan Gymdeithas Ffrindiau a Rhieni'r ysgol. Cafodd y disgyblion i gyd lyfr ail-law am ddim ac yna gofynnwyd iddynt gwblhau adolygiad llyfr. Ar y diwrnod tynnwyd tri enw allan o'r bocs i ennill taleb gwerth £15 a gyfranwyd gan y gymdeithas. Y tair lwcus oedd Ally, Lucy a Sioned. Diolch i'r gymdeithas am drefnu ac i Siop Lyfrau ail-law Caerfyrddin am eu haelioni.



Fel rhan o waith y tymor o greu a gwerthu a datblygu sgiliau mentergarwch, cynhaliwyd gweithdy gan arlunydd talentog lleol; Sara Jones sydd yn cynhyrchu gwaith celf ar lechen. Cafodd y disgyblion fore gwerth chweil yn dysgu am fenter ac hefyd creu darn celf ei hun gan ddatblygu sgiliau creadigol. Diolch yn fawr iawn i Sara am rannu ei gwybodaeth. Ar ddiwedd y tymor bydd noson agored yn yr ysgol i rieni, gwarchodwyr, y teulu ehangach, darpar-rhieni a'r gymuned. Bydd hwn yn gyfle i weld beth mae'r ysgol yn ei gynnig, teimlo awyrgylch a naws yr ysgol ac hefyd bydd mentrau y disgyblion ar waith gydag nwyddau ar werth megis celf ar lechen, canhwyllau a photiau blodau. Croeso cynnes i bawb.

# YSGOL BRYNCONIN

Cafodd Dosbarth Emrallt amser da yn dysgu am fwydydd mewn gwyl fwyd arbennig ar Faes Sioe Hwlffordd ar ddydd Mercher, Chwefror 11eg. Dysgwyd am daith llaeth, menyn a chaws a chafwyd cyfle i ddysgu am dato newi Sir Benfro.

**Diwrnod Miwsig Cymru**

Diolch i aelodau Cabinet Iaith a Diwylliant a Senedd yr Ysgol am drefnu gweithgareddau hwyl ar Ddiwrnod Miwisg Cymru, Dydd Gwener, Chwefror 13eg. Braf oedd cael gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg a dysgu fwy am fandiau enwog o Gymru.

**Llongyfarchiadau!**

Da iawn i Ela, Evelyn, Ffion a Thomas am gynrychioli Ysgol Brynconin yn rownd derfynol Cwis Dim Clem Sir Benfro ar fore Mawrth, Chwefror 24ain. Daethant yn ail drwy Sir Benfro a cholli o drwch blewyn i'r tîm buddugol. Da iawn nhw am wneud mor dda.

**Gweithdy Cadw'n Ddiogel ar y Ffordd**

Fel rhan o waith ein thema Iechyd Da, fe wnaeth plant Derbyn gymryd rhan mewn gweithdy cadw'n ddiogel ar y ffordd ar ddydd Mercher, Chwefror 25ain. Cafwyd amser da yn dysgu am reolau ffordd.

**Twrnament Pêl Rwyd yr Urdd**

Llongyfarchiadau i dîm pêl rwyd yr Ysgol am gystadlu'n dda yn nhwrnament pêl rwyd yr Urdd ar ddydd Mercher, Chwefror 25ain. Diolch i Miss Sharon am hyfforddi a gofalu am y plant.

**Diwrnod Iechyd Da**

Ar ddydd Gwener, Chwefror 27ain, cafodd y plant gyfle i gymryd rhan mewn Diwrnod Iechyd a Lles fel rhan o waith thema'r tymor, Iechyd Da. Roedd y diwrnod yn gyfle gwerthfawr i'r plant ddysgu am bwysigrwydd gofalu am eu hiechyd corfforol a'u lles emosiynol.

Roeddem yn falch iawn o groesawu'r Nyrsys Ysgol, a rannodd negeseuon pwysig am ddeiet gytbwys ac i ddeall y gwahaniaeth rhwng germau da a drwg. Y peth gorau oedd defnyddio'r sganwyr golchi dwylo, a gweld drostynt eu hunain pa mor bwysig yw golchi dwylo'n drylwyr i gael gwared ar germau.

Daeth Adran Chwaraeon yr Awdurdod Lleol i'r ysgol hefyd i arwain amrywiaeth o weithgareddau corfforol hwyliog ac ymgysylltiol. Dysgwyd y pwysigrwydd o gadw'n heini er mwyn cynnal iechyd da.

Yn ogystal, cafodd y plant gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau llesiant, gan gynnwys ioga, ymarferion anadlu a chyfnodau tawel o ymlacio. Cafwyd cyfle adeg y sesiynau hyn i'r plant feddwl am fod yn garedig tuag at eu cyrff a dysgu sut i ofalu am eu meddwl a'u lles. Diolch i Gabinet Iechyd a Llês am helpu ni i drefnu y diwrnod arbennig yma.

Roedd y diwrnod yn brofiad gwerthfawr a phwysig i'r plant ac fe'i mwynhawyd yn fawr gan bawb. Roedd yn ychwanegiad llwyddiannus iawn at waith thema'r tymor, Iechyd Da.

**Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi**

Braf oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig neu wedi gwisgo mewn coch ar Ddydd Gwyl Dewi. Cafwyd cyfle i ddysgu am ein nawddsant ac i ddathlu ein Cymreictod mewn steil ar ddydd Llun, Mawrth 2il.



**Eisteddfod Offerynnol yr Urdd**

Da iawn i Ash, Heti a Tomos am gystadlu yn Eisteddfod offerynnol yr Urdd ar ddydd Mawrth, Mawrth 3ydd. Llongyfarchiadau enfawr i Tomos am ddod yn gyntaf yn y chwythbrennau ac i'r ensemble offerynnol am ddod yn gyntaf hefyd. Fe wnaeth Ash yn arbennig o dda ar y piano mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Rydym yn browd iawn o'r tri ac yn dymuno'n dda iddyn nhw yn y Genedlaethol.



**Eisteddfod Ysgol**

Da iawn i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfod Ysgol ar ddydd Mercher, Mawrth 4ydd. Braf oedd gweld y plant yn ymdrechu a gwneud eu gorau glas. Llongyfarchiadau enfawr i'r rhai a ddaeth yn fuddugol a dymuwn yn dda iddyn nhw yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Llongyfarchiadau i Dyfed ac Elisabeth am ennill y gadair a'r goron, i Heti a Loti am ennill y fwyaf o bwyntiau ac am ennill tlws Mrs A Huws, i Arthur am ennill y fwyaf o bwyntiau am waith llenyddol ac i dŷ Bronfraith am ennill y fwyaf o bwyntiau.



**Dyfed ac Elisabeth.**



**Heti, Loti ac Arthur.**

**Diwrnod y Llyfr**

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr mewn steil ar ddydd Gwener, Mawrth 6ed . Hyfryd oedd gweld y plant wedi gwisgo i fyny fel eu hoff gymeriadau o lyfr. Cafwyd cyfle i ddysgu mwy am lyfrau yn ystod y dydd.

## YSGOL BECA

**Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd**

Diolch yn fawr iawn i'n Dewiniaid Digidol am rannu negeseuon pwysig E-Ddiogelwch yn ein gwasanaeth ar Chwefror 10fed. Mwynhaodd y disgyblion weithgareddau i ddysgu sut i fod yn fwy diogel ar y rhyngrwyd yn ystod y dydd.

**Trip i Fferm Maenhir**

Ar Chwefror 11eg fe wnaeth Ysgol Beca ymweld â Fferm Maenhir a Becws Bets am ddiwrnod anhygoel o fwynhau a dysgu! Hoffwn ddiolch i Mr a Mrs Twose, Betsan, Susanna a Joseph am y croeso cynnes ac am ddiwrnod bythgofiadwy i'r plant. Cafodd y disgyblion y cyfle i gael taith o gwmpas y fferm i weld yr anifeiliaid a gweld y broses godro. Hefyd mwynhaodd y plant greu a bwyta pancos blasus Becws Bets. Rydym ni mor lwcus i gael profiadau fel hyn o fewn ein milltir sgwâr.



**Dydd Miwsig Cymru 2026**

Ar Ddydd Miwsig Cymru ar Chwefror 13eg, gwnaeth y disgyblion fwynhau dathlu a dawnsio i gerddoriaeth Cymraeg. Mwynhaodd y plant wrando ar gerddoriaeth gan Welsh Whisperer, Elin Fflur, Yws Gwynedd, Dafydd Iwan a Bronwen Lewis. Diwrnod arbennig i ddathlu cerddoriaeth Cymru.

**Dydd Gŵyl Dewi**

Ar gyfer ein dathliadau Dydd Gŵyl Dewi mwynhaodd y plant wneud llawer o weithgareddau i ddathlu bod yn Gymraeg. Mwynhaodd disgyblion Carn Gyfrwy goginio Bara Brith a gwnaeth disgyblion Cwm Cerwyn greu cawl.

**Pêl-Rwyd**
Da iawn i ddisgyblion wnaeth gymryd rhan yng nghystadleuaeth Pêl- Rwyd Urdd Sir Benfro ar Chwrefror 25ain. Rydym yn falch iawn ohonynt fel ysgol.




**Diwrnod y Llyfr**
Ar ddydd Iau, Mawrth 5ed, buom yn dathlu 'Diwrnod y Llyfr'. Braf oedd gweld pawb wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr. Cafodd y disgyblion y cyfle i drafod ei hoff lyfrau a chreu storiâu ei hun. Roedd hi'n hyfryd gweld y disgyblion yn mwynhau darllen a thrafod y llyfrau.



**Eisteddfod Ysgol**
Hyfryd oedd gwahodd rhieni ac aelodau o'r gymuned i'n Eisteddfod Ysgol ar ddydd Gwener, Mawrth 6ed. Cafodd y disgyblion y cyfle i rannu ac arddangos eitemau'r Eisteddfod wrth berfformio caneuon, llefaru a dawnsio disgo. Yn ychwanegol i hyn roedd cyfle i ni ddathlu celf a chrefft y disgyblion hefyd. Braf oedd gweld pawb yn perfformio mor dda. Pob lwc i bawb sydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch.




## YSGOL GRIFFITH JONES

**Dydd Gŵyl Dewi**
Ar ddydd Llun, Mawrth 2il y dathlwyd Gŵyl Dewi eleni gyda'r plant yn eu crysau coch a'u gwisgoedd traddodiadol. Cyflwynodd y Llysgenhadon Iaith wasanaeth arbennig i'r disgyblion. Cafodd pawb fasned o gawl i ginio. Trefnwyd gweithgareddau i ddathlu traddodiadau Cymru ym mhob dosbarth gan gynnwys  sesiynau coginio pice ar y maen a chawl, a sesiynau celf Cennin Pedr. Mwynhaodd Dosbarth Gwenllian dwmpath dawns a bu Dosbarth Branwen yn dylunio het Gymreig newydd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

**Siarter Iaith**
Bu tim dosbarth Pwyll yn cystadlu yn ail rownd 'Cwis Dim Clem Menter Sir Gâr' gan lwyddo i ddod yn fuddugol.  Aethant ymlaen i gystadlu wedyn yn y rownd Rhanbarthol. Llongyfarchiadau mawr i Alffi Jac, Ethan, Nile a Betsi


**Ymwelwyr**
Daeth swyddogion o'r Sir i gyflwyno gweithdai 'Presenoldeb' i ddisgyblion
Blwyddyn 6 Pwyll a Myrddin.
Croesawyd y Frigad Dân i gynnal gweithdai diogewlch gyda Blwyddyn 2 Gwenllian ac Arthur a Blwyddyn 5 Culhwch a Myrddin.
Daeth cwmni 'Abbie Ayre and the Shed of Science' i gyflwyno gweithdy diddorol iawn ar gyfer Blwyddyn 5 Culhwch a Myrddin, gan roi cyfle i'r plant i arsylwi ar effaith llygredd aer arnom.

**Ymweliadau**
Aeth Dosbarthiadau Olwen ac Hywel ar daith i Amgueddfa Werin  Sain Ffagan fel rhan o'u gwaith ymwchil i fywyd plant yn ystod Oes Fictoria, gan gymryd rhan mewn gweithdy yn yr hen ysgol yno.



**Eisteddfod yr Urdd**
Cylch Cwm Taf - Cynhaliwyd rhagbrofion canu a llefaru Cylch Cwm Taf yn yr ysgol eleni eto. Llongyfarchidau i Elijah, Leia, Olwen a Corey fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch.

**Eisteddfod Offerynnol Gorllewin Myrddin**
Llongyfarchiadau i Tomos East a ddaeth yn 3ydd am chwarae'r trombôn yn yr Unawd Pres i ddisgyblion Blwyddyn 6 ac iau.



## YSGOL BANCYFELIN

**Disgyblion Newydd**
Croeso i ddisgyblion newydd Dosbarth y Llan Bancyfelin. Gobeithio i chi fwynhau eich wythnosau cyntaf yn yr ysgol gyda ni. Diolch o galon i Gymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol am roi'r ffolderi darllen hyfryd yma.



**Diwrnod Saff i Siarad**
Cafwyd gwasanaeth arbennig oedd wedi ei drefnu gan y Cyngor Ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiwrnod 'Saff i siarad'. Gwnaethant annog y plant i siarad i wella eu iechyd meddwl ac hefyd i'w hatgoffa am bwysigrwydd siarad gydag eraill.

**Diwrnod Diogelwch ar y Wê**
Cyfle y Dewiniaid Digidol oedd hi i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Diogelwch ar y We. Cafwyd gwasanaeth diddorol ar ddechrau'r diwrnod yna cymerodd dosbarthiadau Mihangel a Cywyn ran mewn gwers fyw ar Adobe Express gyda Meredudd Jones.

**PC Cath**
Hyfryd oedd croesawu PC Cath i'r ysgol am y tro cyntaf eleni er mwyn trafod Diwrnod Diogelwch ar y We. Rhannwyd nifer o wersi pwysig dros ben gyda'r disgyblion yn nosbarthiadau Mihangel a Cywyn am ddiogelwch ac ymddygiad cyfrifol ar-lein.

**Dydd Miwsig Cymru**
I ddathlu Dydd Miwsig Cymru ar Chwefror 13eg trefnodd y Criw Cymraeg wasanaeth arbennig yn seiliedig ar gerddoriaeth, grwpiau a bandiau Cymreig. Cafwyd llawer o hwyl yn canu, dawnsio a dysgu mwy am fiwsig o wahanol rannau o Gymru yn ystod y dydd.

**Eisteddfod Ysgol**
Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Bancyfelin ar Mawrth 2il a chafwyd cyfle i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi hefyd. Buodd y plant yn mwynhau cystadlu, perfformio, llefaru, canu a chwblhau tasgau yn y dosbarth.
Diolch o galon i'r Parchedig Beti Wyn am gytuno i feirniadu ar y diwrnod a llongyfarchiadau mawr i'r Llewod am ddod yn fuddugol eleni.



**Plant yr ysgol yn eu gwisg Gymreig.**

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA POST
Ffôn: 01994 448221

PEIRIANNEG MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH A ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

Blodau
Ar gyfer achlysuron arbennig
Meryl James,
Dyffryn Taf,
Pengawse,
Hendygwyn ar Daf.
SA34 0RE.
Ffôn: 01994 240 350
Symudol: 07977 553796
Ebost: meryljames534@btinternet.com

**Rhagbrofion Eisteddfod Gylch Cwm Taf**
Hyfryd oedd gweld cymaint o blant yr Ysgol yn cystadlu yn rhagbrofion Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Griffith Jones SanClêr. Cafwyd llawer o berfformiadau graenus ar y llwyfan oedd yn dangos ôl dysgu ac ymarfer trylwyr.

**Eisteddfod Gylch Cwm Taf**
Llongyfarchiadau i Ava Evans am ddod yn ail yn yr Unawd llefaru blwyddyn 3 a 4.




**Diwrnod y Llyfr**
Roedd pawb yn ysgol Bancyfelin wedi mwynhau Dwrnod y Llyfr. Buodd y plant yn brysur yn gwneud gweithgareddau gwahanol – gwrando ar stori ‘Un i fi a un i ti’ gyda’r awdur Aneirin Karadog, dylunio cymeriadau mewn gweithdy ar-lein byw gyda Huw Aaron, ysgrifennu adolygiadau o lyfrau a chyfnewid llyfrau o dan ofal y Cyngor Eco. Diolch o galon i “Free Books Carmarthen” am ddarparu’r llyfrau er mwyn hwyluso’r digwyddiad cyfnewid.



## YSGOL LLYS HYWEL

**Criced**
Diolch yn fawr i Sarah o Griced Cymru a “Chance to Shine” am ddod atom i wneud cyfres o wersi criced gyda’n hysgol gyfan yn ystod tymor diwethaf.

**Dydd Miwsig Cymru**
Mwynhaodd pawb yn yr ysgol disgo amser chwarae i ddathlu cerddoriaeth Gymreig, yn ogystal â gwneud gweithgareddau seiliedig yn eu dosbarthiadau. I orffen y dydd, mi oedd y plant yn ffodus iawn i gael perfformiad wrth ‘Miss Hollie’, sef aelod o staff ein hysgol a digwydd bod aelod o’r grŵp Cymreig Adwaith. Diolch Miss Hollie, ein seren bop!



**Nofio**
Mi aeth blynyddoedd 3- 6 i Ganolfan Hamdden Caerfyrddin i gael gwersi nofio dyddiol am bythefnos. Mi oedd y plant wedi mwynhau a datblygu llawer yn ystod y cyfnod yma.



ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed
Ffôn:
01994 240857

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

**Eisteddfod Gylch**
Llongyfarchiadau i'r plant a wnaeth gynrychioli Llys Hywel yn wych yn Eisteddfod Gylch Cwm Taf. Cawsom 3ydd yn y parti unsain a 3ydd yn y canu unigol. Hefyd pob lwc i'r merched sy'n cystadlu yn y dawnsio disg. Chwarae teg i bob un plentyn am gystadlu. Cawsom ni brynhawn hwyl yn yr ysgol yn dathlu Eisteddfod ysgol hefyd. Diolch hefyd i'r staff am hyfforddi.



**Dydd Gŵyl Dewi**
Braf oedd gweld plant yr ysgol yn gwisgo lan yn eu gwisgoedd Cymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar ddechrau'r mis. Cafodd y plant cyfle, yn eu dosbarthiadau, i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau gan gynnwys coginio pice ar y maen.

**Diwrnod y Llyfr**
I ddathlu diwrnod y llyfr eleni, gwisgoedd y plant lan yn seiliedig ar eu hoff lyfr. Cymerwyd rhan mewn sawl gweithgaredd hefyd, gan gynnwys, ysgrifennu storiâu gan ddefnyddio Emojis yn unig, bas data llyfrau, gwaith animeiddio a'r plant iau yn darllen straeon i'r plant bach. Ymdrech arbennig!

**Gweithdu "Miss school, miss out"**
Mi oedd disgyblion blwyddyn 6 wedi cymryd rhan mewn gweithdy 'colli ysgol, colli allan' i fynd dros bwysigrwydd mynychu ysgol. Diolch i'r tîm presenoldeb a diogelu am eich amser gyda'r plant.



## Dathlu Gŵyl Ddewi



Twm Elias yn edrych yn smart yn eu wisg gymraeg.

**FFERYLLFA EVANS**
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444
01994 230456
**eich canolfan gofal iechyd lleol**
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

*Pethau Olyv*
***Ffasiynau, gemwaith ac ategolion merched***
Mermaid Buildings
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230590
info@pethauolyv.co.uk

**DENNIS JONES A'I DEULU**
SAER COED
PEINTIWR AC ADDURNWR
TREFNWR ANGLADDAU
Maesawelon
Efailwen
Ffôn: 01994 419561

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus i Sara Elena Jones, Blaenau a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 8 oed ar y 25ain o Ebrill. Cariad mawr wrth Dad, Mami, Gwenno a'r teulu i gyd.



Penblwydd Hapus iawn i Celt, fydd yn dathlu ei benblwydd yn 4 mlwydd oed ar y 27ain o fis Mawrth. Joia'r dathlu! Cariad mawr wrth, Mam, Dad, Tomos a'r teulu i gyd. xxx



Penblwydd Hapus yn 4 oed i Nola, merch fach Dafydd a Kelly, Caerfyrddin, a chwaer fawr Tomi. Mae Nola yn wyres i Delyth a John, Pwll Trap a Simon a Sandra, Abergwili. Cariad mawr.


Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mawrth 2026** | | |
| Sad 21 | *Sioe Gerdd - Barnum, Caerdydd* | 1 |
| Iau 26 | ● *Shen Yun, Abertawe* | 1 |
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Canolbarth Cudd Iwerddon** | *6 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 1 | **Fforiwr Arfordir y De** | *5 |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Miss Saigon, Caerdydd* | 1 |
| Sul 7 | **Te Prynhawn yng Nghaerfaddon** | 3 |
| Llun 8 | **Gwesty Warner - Neuadd Thorseby** | *5 |
| Sad 13 | Rheilffordd Mynydd Aberhonddu | 1 |
| Maw 16 | ● *Take That, Caerdydd (Bws yn unig, dim tocyn)* | 1 |
| Mer 17 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - Legally Blonde, Caerdydd* | 1 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 22 | **Ynys Mannaw** | *6 |
| Sad 27 | *Drama - Fawlty Towers, Caerdydd* | 1 |
| **Gorffennaf 2026** | | |
| Sad 4 | **Yr Alban - Highland Fling** | 7 |
| Sad 11 | ● *Sioe Gerdd - Annie, Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 & Mer 22 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Llun 27 | **Llandudno** | *5 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Awst 2026** | | |
| Llun 3, Mer 5 a Gwe 7 | Eisteddfod ardal 'Y Garreg Las' | 1 |
| **Medi 2026** | | |
| Llun 7 | **Caerwynt a'r Goedwig Newydd** | *5 |
| Sad 12 | **Sioe Gerdd Paddington** | 2 |
| Llun 14 | ● **Gwesty Warner - Castell Studley** | *5 |
| Llun 21 | **Eastbourne** | *5 |
| **Hydref 2026** | | |
| Iau 1 | **Swindon ac Ysbryd Arloesol y Cotswolds** | *5 |
| Gwe 9 | **Gwesty Warner - Tŷ Littlecote** | *4 |
| Sad 17 | ● **ABBA Voyage** (dim ond 4 sedd ar ôl) | 2 |
| Sul 18 | ● *Kevin Bridges, Caerdydd* | 1 |
| Sad 24 | ● *Sioe Dirty Dancing, Caerdydd* | 1 |
| Llun 26 | **Ynys Wyth** | *5 |
| **Tachwedd 2026** | | |
| Gwe 6 | **Twrci a Tinsel, Torquay** | *4 |
| Llun 23 | ● **Gwesty Warner - Runnymede on Thames** | *5 |
| Sad 28 | **Gwyl Olau 'Glow' RHS Wisley** | 2 |
| Llun 30 | Nadolig Swydd Efrog | *5 |
| **rhagfyr 2026** | | |
| Sad 5 | Caerfaddon - Marchnad Nadolig | 1 |
| Sad 5 | *Sioe Gerdd Mamma Mia, Caerdydd* | 1 |
| Sad 12 | *Sioe Gerdd Matilda, Caerdydd* | 1 |

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma / ● = Teithiau newydd sydd ddim yn llyfryn 2026**

**Gallwch archebu ar lein, dros y ffôn, neu mewn person yn ein swyddfa**

CYFRES Wenfro

# Wyau Ffrindiau

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**


Eleni, mae Lilwen a Dilwen yr ieir, wedi peintio llythrennau ar eu hwyau Pasg lliwgar.

**Pa lythyren sydd angen ei pheintio ar yr ŵy olaf er mwyn i Mam-gu Iet-wen greu enwau ei holl ffrindiau?**



**Ffrindiau Mam-gu Iet-wen**

Blodwen
Branwen
Ceinwen
Dwynwen
Glanwen
Gwen
Olwen
Owen
Rhianwen
Rhoswen
Sulwen




**Pasg hapus!**

**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/04/26**

**Ateb Cystadleuaeth Codi Hwyl:**
Y FARI LWYD oedd yn gwisgo cynfas wen a rhubanau lliwgar.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓢ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2026

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## TEITHIAU DYDD 2026

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth | 31ain | Maw | Diwrnod o Siopa yn TRAGO MILLS MERTHYR TUDFUL | £22.00 |
| Dydd Mercher | 8fed | Ebrill | GERDDI CLYNE a MWMBWLS | £20.00 |
| Dydd Mawrth | 28ain | Ebrill | ABERYSTWYTH a Pysgod a Sglodion ar y ffordd adre (bwyd ddim yn y pris) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 5ed | Mai | AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN | £22.00 |
| Dydd Sadwrn | 9fed | Mai | MALVERN Gŵyl Wanwyn yr RHS (Tocyn yn gynwysiedig) | £55.00 |
| Dydd Mawrth | 19eg | Mai | HENFFORDD (HEREFORD) a Siop Fferm OAKCHURCH | £32.00 |
| Dydd Mawrth | 26ain | Mai | Diwrnod o Siopa yn McARTHUR GLEN, PENYBONT ar OGWR | £20.00 |
| Dydd Mercher | 10fed | Mehef | HARBWR BRYSTE yn llawn Siopau, Bwytai a Bariau ger y môr | £32.00 |
| Dydd Mawrth | 16eg | Mehef | Take That yn Chwarae yng NGHAERDYDD (Bws yn unig) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 23ain | Mehef | DIWRNOD MARCHNAD Y FENNI | £25.00 |
| Dydd Sadwrn | 27ain | Mehef | GWYL FWYD a DIOD - BAE CAERDYDD | £22.00 |
| Dydd Sul | 28ain | Mehef | Metallica: M72 ar Daith - CAERDYDD (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 30ain | Mehef | LEWIS CAPALDI yn CAERDYDD - Blackweir (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Mercher | 1af | Gorff | LEWIS CAPALDI yn CAERDYDD - Blackweir (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Iau 9fed | Gorff | GERDDI | CLYNE a MWMBWLS | £20.00 |
| Dydd Mercher | 15fed | Gorff | ?????????? TAITH DDIRGEL ????????? | £40.00 |
| Dydd Mawrth | 21ain | Gorff | Blasu Gin a Tê Prynhawn yn CASTELL HENSOL | £75.00 |
| Dydd Mercher | 22ain | Gorff | SIOE AMAETHYDDOL FRENHINOL CYMRU LLANELWEDD(Bws yn unig) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 28ain | Gorff | TAITH yr HAF i BAE CAERDYDD | £22.00 |
| Dydd Mawrth | 4ydd | Awst | ABERYSTWYTH a Pysgod a Sglodion ar y ffordd adre (bwyd ddim yn y pris) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 11fed | Awst | Canolfan Arddio Yr Hên Orsaf Drênnau a ABERHONDDU | £28.00 |
| Dydd Mawrth | 18fed | Awst | DIWRNOD MARCHNAD Y FENNI | £25.00 |
| Dydd Gwener | 21ain | Awst | Diwrnod y Merched yn FFOSLAS (Bwffet Prosecco ar y ffordd) | £65.00 |
| Dydd Mawrth | 25ain | Awst | HARBWR BRYSTE ac ymweld â Llong SS Great Britain | £50.00 |
| Dydd Mawrth | 8fed | Medi | TREFYNWY a Chanolfan Siopa LABELS yn Rhosan ar Wy | £30.00 |
| Dydd Mawrth | 29ain | Medi | Diwrnod o Siopa yn TRAGO MILLS MERTHYR TUDFUL | £22.00 |
| Dydd Mawrth | 6ed | Hydref | DIWRNOD yn DINAS Hynafol Hyfryd CAERFADDON | £32.00 |
| Dydd Mercher | 14eg | Hydref | AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN | £22.00 |
| Dydd Mawrth | 27ain | Hydref | Taith i DDYFFRYN ELAN gyda BWYD yn y FFOSTRASOL ARMS | £50.00 |
| Dydd Mercher | 4ydd | Tach | MARCHNAD Y FENNI a Stondinnau Bric a Brac | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 10fed | Tach | Canolfan CRIBBS CAUSEWAY BRYSTE | £32.00 |
| Dydd Mercher | 18fed | Tach | Diwrnod o Siopa yn McARTHUR GLEN, PENYBONT ar OGWR | £20.00 |
| Dydd Mawrth | 24ain | Tach | FFAIR AEAF FRENHINOL CYMRU yn LLANELWEDD | £25.00 |
| Dydd Gwener | 1af | Rhag | Siopa yn GLOUCESTER QUAYS | £32.00 |
| Dydd Mawrth | 8fed | Rhag | Siopa NADOLIG yng Nhanolfan Garddio Yr Hên Orsaf Drennau | £25.00 |
| Dydd Iau 10fed | Rhag | CINIO NADOLIG Yng NGHWESTY'r CLIFF, GWBERT, ABERTEIFI | | £70.00 |
| Dydd Llun | 14eg | Rhag | SIOPA NADOLIG Yn DINAS Hynafol CAERFADDON | £32.00 |
| Dydd Mawrth | 15fed | Rhag | SIOPA NADOLIG yn Prif Ddinas CYMRU - CAERDYDD | £22.00 |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## TEITHIAU 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maw 7fed Ebrill | ???? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL ???? | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 10fed Ebrill | TORQUAY, TOTNES a tê a chacen ar daith Cwch ar yr Afon Exe | £385 | 4 Diwrnod |
| Sad 11eg Ebrill | MAMMA MIA! THE PARTY - Llundain | £430 | 3 Diwrnod |
| Mer 15fed Ebrill | Blas o Gymru yng Nghwesty'r TYNEDALE, LLANDUDNO | £590 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Ebrill | (Newydd) CHELTENHAM, TEWKESBURY a'r COTSWOLDS | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ebrill | (Newydd) PASHLEY MANOR - "Tulip Festival" | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 27ain Ebrill | (Newydd) BOURNEMOUTH a'i Chelf Ysblennydd | £515 | 5 Diwrnod |
| Sul 3ydd Mai | Teithiau amrywiol o amgylch Ynys JERSEY | £865 | 7 Diwrnod |
| Sad 9fed Mai | (Newydd) ALPAU FFRAINC, CHAMONIX a Llyn ANNECY | £1,285 | 8 Diwrnod |
| Llun 11eg Mai | Rheilffyrdd Rhamantus LLANBERIS a GOGLEDD CYMRU | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Mai | IWERDDON Bantry ac Arfordir y Gulf Stream | £745 | 6 Diwrnod |
| Gwe 22ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £465 | 3 Diwrnod |
| Sul 24ain Mai | Agêr a Mordaith Afon yn DYFNAINT a GWLAD YR HAF | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 29ain Mai | WETHERSPOONS WANDERER | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 1af Mehefin | (Newydd) Rhamant YNYS WYTH | £620 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Mehefin | (Newydd) Teithiau hudol o amgylch Trefi a Gerddi yr AFON TAFWYS | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 14eg Mehefin | (Newydd) LES MISERABLES - BIRMINGHAM | £240 | 2 Diwrnod |
| Sul 14eg Mehefin | (Newydd) Llwybrau Brenhinol yr Alban, Balmoral, Glamis a Chwedlau'r Ucheldiroedd | £870 | 7 Diwrnod |
| Llun 22ain Mehefin | HARROGATE & DYFFRYNNOEDD SWYDD EFROG | £585 | 5 Diwrnod |
| Gwe 26ain Mehefin | ??? TAITH DDIRGEL MEHEFIN ??? | £575 | 4 Diwrnod |
| Maw 30ain Mehefin | (Newydd) Golygfeydd Mynyddoedd y SWISDIR a ST ANTON | £1,575 | 8 Diwrnod |
| Sul 5ed Gorff | (Newydd) Y Gorau o OGLEDD IWERDDON | £899 | 6 Diwrnod |
| Gwe 10fed Gorff | (Newydd) SIOE FLODAU BADMINTON | £365 | 3 Diwrnod |
| Sul 12fed Gorff | Agêr a Mordaith LLYNOEDD GOGLEDD LLOEGR | £685 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Gorff | LLANDUDNO a phrydferthwch GOGLEDD CYMRU | £615 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Gorff | (Newydd) CAERWRANGON a DYFFRYN HAFREN | £465 | 4 Diwrnod |
| Llun 27ain Gorff | ??? TAITH DDIRGEL 'CYFRINACHOL' YR HAF ??? | £610 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Awst | (Newydd) Cyfrinachau cudd SWYDD BEDFORD a thu hwnt | £595 | 5 Diwrnod |
| Llun 10fed Awst | (Newydd) BORDEAUX, DORDOGNE a mordaith afon ARFORDIR YR IWERYDD | £2,100 | 9 Diwrnod |
| Llun 10fed Awst | Chwilota'r PENNINES | £530 | 5 Diwrnod |
| Sad 16eg Awst | Uchafbwyntiau PLYMOUTH, FALMOUTH a YNYSOEDD De Orllewin Lloegr | £855 | 6 Diwrnod |
| Llun 24ain Awst | LLANDUDNO a RHEILFFORDD YR WYDDFA | £655 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Awst | (Newydd) Trysorau cudd YNYS WYTH | £705 | 6 Diwrnod |
| Sad 29ain Awst | PADDINGTON Y Sioe Llundain | £235 | 2 Diwrnod |
| Llun 31ain Awst | SWYDD EFROG - 'Fantastic Beasts & Seaside Treats' | £610 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Medi | (Newydd) CAEREDIN, STIRLING a'r 'Firth of Forth' | £755 | 6 Diwrnod |
| Llun 14eg Medi | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £415 | 5 Diwrnod |
| Llun 14eg Medi | AGÊR a MORDAITH NORFOLK & SANDRINGHAM | £615 | 5 Diwrnod |
| Sad 19eg Medi | (Newydd) ANDRÉ RIEU yn fyw o Birmingham | £335 | 2 Diwrnod |
| Sul 20fed Medi | IWERDDON, Clogwyni ac Arfordir DONEGAL | £865 | 7 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las

Mae dyddiad cau ar gyfer rhai o brif anrhydeddau'r Eisteddfod Genedlaethol yn prysur agosáu. 1 Ebrill yw'r dyddiad cau ar gyfer Medal Syr TH Parry-Williams er clod, Medal R Alun, a'r Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg, er cof am Dr Glyn O Phillips, enillydd cyntaf y Fedal ac arloeswr yn ei faes.

Ers 1976, bu'r Eisteddfod yn cydnabod ac yn anrhydeddu unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig yn y gymuned, er cof am Syr Thomas Parry-Williams, un a wnaeth gymaint dros yr iaith a'n diwylliant yn ystod ei oes.
Roedd Syr TH Parry-Williams yn gefnogwr brwd o'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn Awst 1975, yn dilyn ei farwolaeth ychydig fisoedd ynghynt,
sefydlwyd cronfa i goffáu ei gyfraniad gwerthfawr i weithgareddau'r Eisteddfod. Gweinyddir y gronfa gan Ymddiriedolaeth Syr Thomas Parry-Williams. Rhoddir y fedal eleni gan Fenter Iaith Sir Benfro.

Mae eleni'n flwyddyn bwysig wrth inni ddathlu hanner can mlynedd ers i'r Fedal gael ei chyflwyno am y tro cyntaf. Yn y flwyddyn arbennig hon, rydyn ni'n gwahodd eich darllenwyr i ystyried ac enwebu unrhyw un yn eu cymuned sydd wedi gwneud gwaith gwirfoddol arbennig i helpu pobl ifanc rywle yng Nghymru.

Cyflwynwyd Medal R Alun am y tro cyntaf y llynedd yn Eisteddfod Wrecsam, er cof am y diweddar Barch. R Alun Evans, a fu'n ffigwr canolog yn natblygiad yr Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd lawer. Cynigir y Fedal i gymwynaswr bro sydd wedi gwneud cyfraniad gwirioneddol i gefnogi, cynnal a chyfoethogi diwylliant eu hardal leol. Cyflwynir medal 2026 er cof am Martyn a Meryl Lloyd.

Mae'r Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg yn rhan bwysig o raglen yr Eisteddfod ers dros ugain mlynedd, ac am y tro cyntaf eleni fe'i chyflwynir er cof am Dr Glyn O Phillips, enillydd cyntaf y Fedal ac arloeswr yn ei faes. Cyflwynir y Fedal — sy'n un o'r anrhydeddau mwyaf a gyflwynir yn y Gymraeg — i gydnabod cyfraniad unigolion sydd wedi creu argraff ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae nifer fawr o unigolion yng Nghymru sy'n llawn haeddu'r anrhydedd. Felly, beth am fynd ati i enwebu rhywun yn eich cymuned chi? Dilynwch y ddolen i enwebu: www.eisteddfod.cymru/2026/anrhydeddau-ac-enwebiadau.

AI CHI YW DYSGWR Y FLWYDDYN ELENI?

Bydd enwebiadau a cheisiadau ar gyfer un o gystadlaethau mwyaf poblogaidd yr Eisteddfod Genedlaethol yn agor ar 24 Mawrth.

Ers blynyddoedd bellach, mae cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn wedi denu degau o gystadleuwyr o bob rhan o Gymru – a thu hwnt.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw un sydd dros ddeunaw oed ac sydd wedi dysgu Cymraeg. Mae amryw yn cystadlu pan ddaw'r Eisteddfod i'r ardal leol, gyda'r holl weithgareddau cymunedol yn rhoi hwb i hyder nifer fawr o ddysgwyr. Ond does dim rhaid aros i'r Eisteddfod ddod i'ch ardal chi cyn meddwl am gystadlu. Os oes gennych chi ddiddordeb eleni, beth amdani?

Mae llawer o'r cystadleuwyr yn cael eu henwebu gan deulu, ffrindiau neu diwtor. Mae dysgu unrhyw iaith yn her, ac mae cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn gyfle gwych i gydnabod eu camp ac i'w llongyfarch ar eu llwyddiant.

Mae pobl yn dysgu Cymraeg am nifer o wahanol resymau. Mae rhai yn dewis dysgu gyda'u plant, eraill oherwydd eu gwaith neu i deimlo'n rhan o'r gymuned, a rhai oherwydd eu bod yn chwilio am her newydd. Beth bynnag y rheswm, mae dysgu Cymraeg yn sgil ychwanegol ac yn gyfle i chi fod yn rhan o ddiwylliant arall, sy'n fywiog, yn tyfu ac yn edrych i'r dyfodol.

Mae'r wybodaeth i gyd ar wefan yr Eisteddfod, ac ewch yno i gofrestru neu i enwebu rhywun sy'n haeddu ennill un o brif wobrau'r Eisteddfod eleni - Dysgwr y Flwyddyn 2026 | Eisteddfod. Y dyddiad cau yw hanner dydd ar 1 Mai.









**Datganiad i’r Wasg - Cronfa Ffyniant Cynllun Profi a rheolir gan Fenter Gorllewin Sir Gâr 17-02-2026**

Mae cynllun Profi, sy’n cynnig cymorth i bobl ifanc wrth iddynt baratoi ar gyfer gadael yr ysgol a chychwyn yn y byd gwaith wedi esblygu a chynnig mwy o gefnogaeth ar gyfer datblygu sgiliau hanfodol byd gwaith ar gyfer bobl o bob oed. Llwyddwyd i dderbyn cefnogaeth grant gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Llywodraeth y DU a weinyddir gan Cyngor Sir Gâr. Yn ystod y cynllun, adeiladwyd ar y partneriaethau rhwng Profi ag ysgolion, Choleg Sir Gar, Sgiliau 24, LRC (Darparwr Hyfforddiant Cyngor Gwledig Llanelli) Sefydliad y Teulu, Canolfan Gymunedol yr Hen Ysgol Llanybydder a Chlwb Rygbi Sanclêr. Datblygwyd unedau dysgu penodol mewn cydweithrediad â chanolfan achredu Agored Cymru, sef PLANED trwy eu cynllun Cadarnhad er mwyn cynnig Unedau a Chymwysterau Agored Cymru i bobl ifanc Sir Gaerfyrddin,” dywedodd Meinir Evans, Cydlynydd Profi. “Cafodd unigolion y cyfle i ddatblygu sgiliau mewn nifer o feysydd gan gynnwys cyrsiau Camau Cyntaf yn y Gymraeg, sgiliau digidol, Cymorth Cyntaf, asesiad risg ac Iechyd a Diogelwch yn ogystal â datblygu hyder wrth ymgeisio am swyddi drwy greu ac addasu CV a meithrin sgiliau i baratoi ar gyfer cyfweliadau .” Darparodd y cynllun hyfforddiant i 243 o bobl i gan ddatblygu sgiliau mewn nifer o leoliadau ar hyd y Sir.




Yn ôl Nadine Evans, Swyddog Ymgysylltu Sgiliau 24 gyda Choleg Sir Gâr “Dros y misoedd diwethaf, mae prosiect Sgiliau 24 wedi cael y pleser o weithio gyda Profi, sydd wedi rhoi cyfle i staff gofal iechyd gymryd eu camau cyntaf wrth ddysgu Cymraeg. Mae pob sesiwn a gyflwynwyd gan Profi wedi derbyn adborth cadarnhaol cyson gan y dysgwyr, gan amlygu ansawdd yr addysgu a'r dull deniadol. Rydym yn gyffrous am y posibilrwydd o weithio gyda Profi eto ac yn edrych ymlaen at gynnal sesiynau Cymraeg pellach gyda darparwyr gofal yn y dyfodol.” Os ydych am dderbyn cymorth i ddatblygu sgiliau byd gwaith mae yna lawer o ddeunyddiau diddorol a hygyrch ar ein gwefan, sef www.profi.cymru sy’n cynnwys cwis i adnabod cryfderau a datblygu sgiliau byd gwaith. Mae’r wefan yn cynnwys sgyrsiau diddorol ar ffurf ffilmiau a phodlediadau am yrfaoedd cyffrous sydd ar gael yn lleol.

**Carcharu Gwyneth Wiliam**

Mae 2026 yn 60 mlynedd ers carcharu Gwyneth Wiliam – y fenyw gyntaf i’w charcharu yn enw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.Ers hynny mae cannoedd o ferched wedi bod o flaen llys a chael eu cosbi gyda dirwyon ayyb mewn ymgyrch-oedd pwysig dros yr iaith. Bu nifer o’r rhain o ganlyniad i brotestiadau torfol fel yn Abertawe yn 1971 ac yn Llandrillo yn Rhos yn yr 1980au. Rwyf yn awyddus i gofnodi’r enwau yma mewn ffilm ar gyfer S4C i ddangos dylanwad merched ym mrwydr yr iaith a sicrhau nad yw eu safiad yn mynd yn angof. Os ydych chi neu rywrai rydych yn eu hadnabod yn perthyn i’r genhedlaeth yma o fenywod dewr cysylltwch gyda fi **catrin.evans@tinopolis.com.** Fe fydd pob gohebiaeth yn cael ei gadw yn gyfrinachol gan y tim cynhyrchu.

# CHWARAEON

## Clwb Rygbi Sanclêr

**Tîm Cyntaf**

Dechreuon ni’r flwyddyn newydd gyda gêm oddi cartref yn Waunarlwydd ar Ionawr 3ydd.
Roedden ni’n disgwyl gêm anodd ac fe brofodd i fod felly gyda’r ddau dîm yn chwarae ar draws y parc, er gwaetha’r amodau oer. Gyda gwaith gwych y cefnwyr cafwyd sawl cais ardderchog gan Dafydd Rees (2), Dafydd Waters a Tom Mason. Seliodd dwy drosiad Dan Griffiths y fuddugoliaeth 19 -24 i’r Seintiau gyda 5 pwynt wedi’u ennill am ein hymdrechion. Cafodd ein gêm gartref yn erbyn Felinfoel ei gohirio oherwydd bod y cae wedi rhewi. Nesaf, i ffwrdd i’r Hendy ar Ionawr 17eg- gêm lle methodd y ddau dîm â chymryd cyfleoedd a phrofodd esgid y tîm cartref i fod y gwahaniaeth yn y sgôr hanner
amser o 6 - 0. Cyfleoedd cyfyngedig, fodd bynnag, fu yn yr ail hanner a methon ni â manteisio ar yr ychydig o gyfleoedd gawson ni i sgorio cais gyda’r rhwystredigaeth o gael ein dal dros y llinell ar sawl achlysur. Gyda chic gosb Dan Griffiths aeth y sgôr i 6-3, dim ond i ni ildio cic gosb yn ein hanner ein hunain yn fuan wedyn a’r sgôr yn 9-3. Gyda’r Seintiau yn cael digon o feddiant a safle ar y cae, cais gan Tom Mason yn dilyn llinell a sgarmes oedd ein hunig wobr a’r sgôr terfynol yn 9-8. Er gwaethaf ein hymdrechion hwyr, nid oedd y fuddugoliaeth i fod a’r siom o ennill dim ond un pwynt o gêm y dylem fod wedi’i hennill.

Nesaf, gêm gartref yn erbyn Uplands Abertawe ar Ionawr 24ain. Dyma dîm a fu'n ddi-guro mewn 4 gêm a llwyddo i gael y gorau ar Ddinbych y Pysgod yr wythnos flaenorol. Roeddem yn disgwyl cystadleuaeth ffyrnig a hynny mewn tywydd stormus. Er hynny, cafwyd gêm galed o rygbi gyda'r amddiffynfeydd yn dominyddu a chyfleoedd cyfyngedig. Roedd hon yn gystadleuaeth dynn heb ildio modfedd. Y sgôr ar hanner amser oedd 7 - 0 i'r Seintiau gyda chais gan Gino Setero, wedi'i drosi gan Che Thomas. Dylen ni fod wedi sgorio cais arall cyn hanner amser ond collon ni'r cyfle a chostiodd hynny'n ddrud i ni. Daeth yr Uplands yn ôl i'r gêm gyda chic gosb ond i gael ei gyfateb â chic gosb Che Thomas a'r sgôr nawr yn 10 - 3. Parhaodd y ddau dîm i frwydo'n galed a thaclo'n ddi-baid gan atal unrhyw gyfleoedd nes i'r Uplands dorri ysbryd y Seintiau yn dilyn nifer o gyfnodau o bwyso gan eu pac mawr gan groesi'r llinell am gais heb ei throsi. Gyda'r sgôr yn 10 - 8 a dim ond ychydig o funudau yn weddill ar y cloc, cafwyd un ymdrech olaf gan yr Uplands. Creon nhw fwlch yn y canol a llwyddo i osgoi ymdrech taclwyr y Seintiau a sgorion nhw yn y munudau olaf. mdrech lew gan y ddau dîm, ond canlyniad anodd i'w dderbyn i'r Seintiau oherwydd roedd cyfle i greu buddugoliaeth annisgwyl.

Ar Chwefror 14eg fe chwaraeon ni Gydweli gartref. Roedd hon yn gêm roedd rhaid ei hennill ac er bod Cydweli yn eistedd ar waelod y tabl, dim ond un pwynt lwyddon ni i'w ennill yn ein gêm yn gynharach yn y tymor. Chwaraeodd y tîm yn dda gan fanteisio ar y cyfle cynnar am bwyntiau gyda chic gosb gan Dan Griffiths. Cafodd y Seintiau y rhan fwyaf o'r meddiant ar ôl dechreuad da gan Gydweli gyda Gino Setaro yn torri drwodd i sgorio heb wrthwynebiad o dan y pyst, wedi'i drosi'n briodol gan Che Thomas. Yn dilyn cic gosb hwyr gan Che, y sgôr ar yr egwyl oedd 13-3. Gwthiodd y Seintiau ymlaen yn yr ail hanner gyda cheisiau gan Callum Evans, Kieran Edwards, Scott Newton a Will Davies. Cafwyd dau drosiad gan Che Thomas a'r fuddugoliaeth o 37-3 ar y diwrnod i'w groesawu, gyda chanlyniadau eraill yn yr adran o'n plaid ni hefyd.

Nesaf, Porth Tywyn ar Chwefror 28ain ( sydd ar frig y gynghrair ) a her wahanol yn enwedig gyda thri newid o'r gemau blaenorol oherwydd anaf. Roedd y ddau dîm yn gystadleuol iawn yn yr hanner cyntaf ac aeth Porth Tywyn ar y blaen 0 - 7 yn gynnar, ond tarodd y Seintiau yn ôl gyda chais gan Ianto Davies a droswyd gan Che Thomas a chic gosb arall i arwain 10 - 7 ar yr hanner. Daeth Porth Tywyn allan ar dân yn yr ail hanner ac amddiffynnodd y Seintiau am gyfnodau hir ond yn raddol adeiladodd Porth Tywyn fantais sylweddol gyda cheisiau yn cael eu sgorio i fynd ar y blaen 7 - 23, cyn cic gosb i'r Seintiau gan Che Thomas ac yna cais heb ei drosi gan y capten Tomos Williams a'r sgôr yn 15 – 23. Porth Tywyn gafodd y gair olaf gyda chais wedi'i drosi i sicrhau buddugoliaeth haeddiannol iddyn nhw.

Ar ôl egwyl y 6 Gwlad bydd Waunarlwydd yn ymweld â Pharc Griffith Jones ar Mawrth 21ain, ac yna ymweliad ar gyfer y darbi lleol yn erbyn Talacharn ar Mawrth 28ain.

**Ieuenctid**

Dros gyfnoid y Nadolig a mis Ionawr, gwelwyd yr ieuenctid yn parhau i berfformio yn wych. Ar Rhagfyr 27ain croesawon ni Gastell Newydd Emlyn i Barc Griffith Jones a daeth torf luosog i fwynhau dros gyfnod yr ŵyl. Roedd yn gêm anodd ond enillodd y Seintiau 19 - 17. Y gêm nesaf oedd oddi cartref yn erbyn Cwins Caerfyrddin ar Rhagfyr 30ain. Roedd y Seintiau yn dominyddu'r gêm a ninnau'n enillwyr haeddiannol 22 - 7 ar y chwiban olaf.

Ein gêm nesaf gartref ar Ionawr 17eg oedd yn erbyn Llandeilo gyda buddugoliaeth arall i'r Seintiau 32 - 8. Yna gêm gartref arall yn erbyn Yr Amman ac er iddyn nhw fod yn ddiguro'r tymor hwn, llwyddodd y Seintiau eto i gipio buddugoliaeth haeddiannol o 10 - 7 a hynny mewn amodau anodd.

Ychydig o rygbi gafodd yr Ieuenctid yn ystod cyfnod y 6 Gwlad ar wahân i gêm wyth olaf y Cwpan Cenedlaethol yn erbyn Casllwchwr gartref ar Chwefror 28ain. Chwaraeodd Ieuenctid y Seintiau rygbi deniadol, a chywir i arwain 35 - 7 ar yr egwyl. Y sgôr terfynol oedd 57-22 ac edrychwn ymlaen at y rownd gyn derfynol, gyda'r gêm a'r lleoliad i'w cadarnhau. Bydd gêm gynghrair gartref yn erbyn Penybanc a gêm oddi cartref yn erbyn Llandeilo a'r Aman wedi hynny.

**Gwyndaf Williams.**



**Llun Chris Rees.**

# Clwb Rygbi Hendygwyn

Dyw'r tywydd ddim wedi helpu'r tymor gyda gemau pawb yn cael eu gohirio. Y gobaith nawr, wrth i'r gwanwyn gyrraedd, bydd modd chwarae'r holl gemau sydd wedi cael eu gohirio.

**Tîm Cyntaf**

Dim lot o gemau yn is Chwefror achos y gemau 6 Gwlad

Chwefror 14eg - Colli'n drwm iawn bant yn erbyn Pontarddulais erbyn tim cryf tu hwnt 76-0

28ain – Gem adref yn erbyn Tycroes - colli 7-26, ar ol od ar y blaewn ar hanner amser.

**Tîm Menywod**

Un gem yn unig mae'r menywod wedi chwarae a hynny mewn glaw trwm erbyn y tim sydd ar frig yr adran. Gorffennodd y gem yn gyfartal 12-12 a doedd Senghennydd (ddim yn hapus!

**Plant**

Mae ail hanner o'r tymor wedi bod yn wlyb gyda dim ond ychydig o gemau wedi eu chwarae. Pythefnos yn ôl teithion ni i Penfro i chwarae ar y cae bob tywydd yn erbyn Arberth. Gwnaeth y tîm dan 7 ennill, gwnaeth y tîm dan 8 ennill o 24-19 cais, ond yn anffodus gwnaeth y dîm dan 9 golli 13-11 cais. Cafodd y tîm dan 10 fuddugoliaeth arall, 13-4 cais.

Rydyn ni bob amser yn barod i groesawu aelodau newydd. Ymarfer bob nos Wener ym Mharc Dr , Hendy Gwyn rhwng 6-7yh.









**Hwb Merched**

Colli wnaeth y tim dan 12 yn rownd gyn terfynol y Cwpan yn ebyn merched Mynydd Mawr.

Bydd y tim dan 14 yn chwarae yn rownd gyn derfynol y Cwpan yn erbyn Valley Vixens mis nesaf.

(Photos or timoedd dydd Sul diwethaf ar dy whats app

Dan 12 - colli yn erbyn y Sospans

Dan 14 - ennill yn erbyn Sharks Dinbych y Pysgod

Dan 16 - ennill yn erbyn Eagles Hwlffordd

**Suzanne Davies.**

